



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwyr gwrywaidd yng Nghymru: Arolwg ACEs Carcharorion

Ford, Katharine; Barton, Emma; Newbury, Annemarie; Hughes, Karen; Bezeczky, Zoe; Roderick, Janine; Bellis, Mark

Cyhoeddwyd: 29/04/2019

PDF y cyhoeddwr, a elwir hefyd yn Fersiwn o'r cofnod

[Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication](#)

*Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):*

Ford, K., Barton, E., Newbury, A., Hughes, K., Bezeczky, Z., Roderick, J., & Bellis, M. (2019). *Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwyr gwrywaidd yng Nghymru: Arolwg ACEs Carcharorion*. Public Health Wales; Bangor University.

### Hawliau Cyffredinol / General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

# Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwyr gwrywaidd yng Nghymru: Arolwg ACEs Carcharorion



Kat Ford, Emma R. Barton, Annemarie Newbury, Karen Hughes, Zoe Bezczky, Janine Roderick, Mark A. Bellis

# Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwyr gwrywaidd yng Nghymru:

## Arolwg ACEs Carcharorion

Kat Ford<sup>1</sup>, Emma R. Barton<sup>2</sup>, Annemarie Newbury<sup>2</sup>, Karen Hughes<sup>1,2</sup>,  
Zoe Bezeczyk<sup>2</sup>, Janine Roderick<sup>2</sup>, Mark A. Bellis<sup>1,2</sup>



**<sup>1</sup> Uned Gydwethredu Iechyd Cyhoeddus**  
Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor  
Ysgol Gwyddorau Iechyd  
Prifysgol Bangor  
Parc Technoleg Wrecsam  
Wrecsam LL13 7YP  
Ffôn: +44(0)1248 383519

**<sup>2</sup> Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol**  
Canolfan Gydwethredu Sefydliad Iechyd y Byd ar  
Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant  
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd y Cyhoedd  
Rhif 2 Capital Quarter  
Caerdydd CF10 4BZ  
Ffôn: +44(0)29 2022 7744

### Diolchiadau

Hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl unigolion yn CEM Parc a gymerodd ran yn yr arolwg hwn. Hoffem ddiolch i Jessica Evans, Hannah Grey, Ellie Worthington, Dr Michelle McManus, Dr Catherine Sharp a Katie Creagh-Barry am eu cymorth yn datblygu'r astudiaeth a chynhyrchu adroddiad. Diolch yn arbennig i Kathryn Ashton (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Dr Benjamin Gray (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Yr Athro Mike Maguire (Athro Trosedd, Prifysgol De Cymru) a Mark Crane (Prif Seicolegydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi [HMPPS] yng Nghymru) am adolygu'r adroddiad fel cymheiriaid.

### Cyllid

Arainnwyd y gwaith ymchwil hwn drwy'r rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd<sup>1</sup> gan Gronfa Arloesedd yr Heddlu, y Swyddfa Gartref, Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru (Cyfeirnod 2016-039) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 978-1-78986-054-2

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

© 2019 Prifysgol Bangor. Gellir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn y ddogfen hon ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwyg yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor.


<sup>1</sup> Partneriaeth Amlasiantaeth yw Camau Cynnar Gyda'n Gilydd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, pedwar Heddlu a Chomisynydd Heddlu a Throseddau Cymru a Barnardo's. Mae Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn gweithio gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol gan gynnwys Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a Gwasanaethau Prawf Cymru i ymdrin ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol a galluogi'r heddlu a staff cyfiawnder troseddol i gymryd camau ataliol wrth ddelio â phobl sy'n agored i niwed.

|  |           |
|--|-----------|
| <b>1. Cyflwyniad</b>                             | <b>4</b>  |
| <b>2. Dulliau</b>                                | <b>6</b>  |
| <b>3. Canfyddiadau</b>                           | <b>7</b>  |
| 3.1. Demograffeg y sampl                         | 7         |
| 3.2. Cyfraddau ACEs                              | 8         |
| 3.3. Hanes troseddu                              | 10        |
| 3.4. Y berthynas rhwng ACEs a mathau o droseddau | 14        |
| 3.5. Cysylltiad â thrais                         | 15        |
| <b>4. Trafodaeth</b>                             | <b>18</b> |
| 4.1. Cyfraddau uchel o ACEs                      | 18        |
| 4.2. ACEs a demograffeg y cyfranogwyr            | 19        |
| 4.3. Y cysylltiad rhwng ACEs a throseddau        | 20        |
| 4.4. Y cysylltiad rhwng ACEs mathau o droseddau  | 21        |
| 4.5. Ymwneud â thrais                            | 21        |
| 4.6. Cyfyngiadau                                 | 22        |
| 4.7. Casgliad                                    | 23        |
| <b>Cyfeiriadau</b>                               | <b>25</b> |
| <b>Atodiad 1: Methodoleg ymchwil lawn</b>        | <b>28</b> |
| <b>Atodiad 2: Tablau data</b>                    | <b>34</b> |


# Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwr yng Nghymru

Yn yr Arolwg ACEs Carcharorion cyfwelwyd â 468 o oedolion (18-69 oed)<sup>a</sup> mewn carchar yng Nghymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2018. Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu cysylltiad ag 11 o ACEs yn ystod plentyndod, eu hanes troseddu a'u cysylltiad â thrais yn ddiweddar.

## Faint o garcharorion a ddywedodd eu bod wedi cael ACEs unigol?



Dywedodd dros 8 o bob 10 carcharor ei fod wedi cael o leiaf 1 ACE, ac roedd bron eu hanner wedi cael 4 ACE neu fwy<sup>b</sup>



Roedd carcharorion â 4 ACE neu fwy 4 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi treulio amser mewn sefydliad troseddwr ifanc (YOI) na'r rhai heb unrhyw ACE

O blith y 46% o garcharorion a oedd erioed wedi bwrw dedfryd mewn YOI:



Roedd gan **9 o bob 10** o leiaf 1 ACE o gymharu ag 8 o bob 10 o'r rhai a oedd heb dreulio amser mewn YOI



Roedd gan **6 o bob 10** 4 ACE neu fwy o gymharu â 3 o bob 10 o'r rhai a oedd heb dreulio amser mewn YOI

## O gymharu â charcharorion heb unrhyw ACE, roedd y rhai â 4 ACE neu fwy:

- 3x gwaith yn fwy** tebygol o fod wedi eu cael yn euog o **ddifrod troseddol**
- 3x gwaith yn fwy** tebygol o fod wedi eu cael yn euog o **drais yn erbyn yr unigolyn**
- 3x gwaith yn fwy** tebygol o fod wedi eu cael yn euog o **ddwyn**
- 2x gwaith yn fwy** tebygol o fod wedi eu cael yn euog o **droseddau cyffuriau**

### Roedd y rhai â 4 ACE neu fwy hefyd 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn droseddwr cyson iawn<sup>c</sup>

#### O'r 39% o garcharorion a gategoreiddiwyd yn droseddwr cyson iawn:




Roedd gan **9 o bob 10** o leiaf **1 ACE** o gymharu ag **8 o bob 10** o'r rhai heb eu categoreiddio'n droseddwr cyson iawn




Roedd gan **6 o bob 10** **4 ACE neu fwy** o gymharu â **4 o bob 10** o'r rhai heb eu categoreiddio'n droseddwr cyson iawn

#### Roedd cyfran yr unigolion a ddywedodd fod ganddynt 4 ACE neu fwy yn cynyddu yn unol â nifer y cyfnodau yn y carchar



#### Roedd ACEs yn cynyddu'n sylweddol y risgiau o gysylltiad diweddar<sup>d</sup> â thrais

% yn adrodd eu bod wedi cael cysylltiad diweddar â thrais



<sup>a</sup>Roedd saith o bob 10 o gyfranogwyr yn Gymry, 25% yn 18-24 oed, 84% yn wyn a bron i draean yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau addysgol, gweler y prif adroddiad.

<sup>b</sup>Nid yw nifer yr ACEs yn adio i 100% oherwydd talgrynnu. O gymharu, roedd cyfraddau ACEs ar gyfer dynion yn y boblogaeth gyffredinol yn 54% â 0 ACE, 19% ag 1 ACE, 16% â 2-3 ACE, 12% â ≥4 ACE, gweler y prif adroddiad.

<sup>c</sup>Yn seiliedig ar faint o euogfarnau a gofnodwyd ganddynt, a ddisbarthwyd gan ddefnyddio diffiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o droseddu cyson iawn, gweler y prif adroddiad.

<sup>d</sup>Yn y 12 mis diwethaf.



# 1. Cyflwyniad

**Gall y profiadau y mae plant yn eu cael wrth dyfu i fyny gael effeithiau hirdymor ar eu hiechyd a'u llesiant. Mae corff cynyddol o ymchwil yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn dangos sut y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs; gweler Blwch 1) gael effaith negyddol ar gyfleoedd bywyd unigolion a chynyddu'r risg o fod yn gysylltiedig â throeddau [1].**

Canfu astudiaethau o ACEs yng Nghymru fod hanner yr oedolion yn y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru wedi cael o leiaf un ACE yn ystod plentyndod, a bod mwy na 10 wedi dioddef pedwar neu fwy [1,2]. Roedd unigolion a oedd wedi dioddef pedwar ACE neu fwy 20 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u carcharu ar ryw adeg yn ystod eu bywydau [1]. Ochr yn ochr â hyn, canfu astudiaethau fod unigolion yn y system cyfiawnder troseddol yn adrodd lefelau uwch o niwed yn ystod plentyndod o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol [3-5], a bod cysylltiad rhwng ACEs a throeddau mwy difrifol a throeddau parhaus. Fodd bynnag, ychydig iawn o astudiaethau sydd wedi ymchwilio i gyfraddau ACEs ymhlith poblogaethau carchardai'r DU neu gysylltiadau rhwng ACEs a throeddau. Er mwyn datblygu'r wybodaeth hon yng Nghymru, holodd Arolwg ACEs Carcharorion boblogaeth

carchar er mwyn deall faint o ACEs yr oeddent wedi'u cael a'r cysylltiadau rhwng ACEs a hanes troseddau (e.e. y math o droseddau).

Tan yn ddiweddar, mae ymchwil i boblogaethau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddim ond un math o drawma (e.e. cam-drin corfforol) neu ychydig o fathau o drawma [13,14]. Fodd bynnag, mae astudiaethau yn dechrau dod i'r amlwg yn awr sy'n defnyddio'r fframwaith ACEs i fesur mathau niferus o niwed yn ystod plentyndod a'u heffaith gronnydd ar ymddygiad troseddol [15-18]. Er enghraifft, mewn sampl o oedolion gwrywaidd a oedd wedi'u carcharu yn yr Unol Daleithiau, dywedodd 90% eu bod wedi cael o leiaf un ACE a 50% eu bod wedi cael pedwar ACE neu fwy [19]. Yn yr Alban, cafodd cwestiynau am ACEs eu hymgorffori yn Arolwg Carcharorion yr Alban 2017; roedd yr arolwg hwn yn nodi nifer uchel o ACEs unigol ond nid oedd yn datgan nifer yr ACEs [20]. Ymhlith pobl ifanc, mae cysylltiad rhwng ACEs a risg uwch o gyflawni troseddau difrifol, ac aildroseddau [16,21, 22]. Er enghraifft, canfu astudiaeth o droseddwyr ifanc yn yr Unol Daleithiau, er bod gan 80% o leiaf un ACE a bod gan 23% bedwar ACE neu fwy, roedd nifer yr ACEs, ar gyfartaledd, ddwywaith yn uwch ymhlith pobl ifanc a oedd yn cyflawni troseddau difrifol, treisgar neu gronig [23]. Yn y DU, canfu astudiaeth o garfan o fechgyn risg uchel yn Llundain fod y nifer cymedrig o euogfarnau (o 10 i 56 oed) yn dueddol o gynyddu wrth i nifer yr ACEs gynyddu [16].

Gall ACEs fod yn broblem rhwng y cenedlaethau, gyda phlant sy'n dioddef ACEs yn wynebu risg uwch o ddatblygu ymddygiad ac amodau a all greu ACEs i'w plant eu hunain yn ddiweddarach [24]. Yn 2009 yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod gan 200,000 o blant o leiaf un rhiant wedi'i garcharu [25]. Drwy gylchoedd troseddau rhwng

## **Blwch 1: Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)**

Profiadau trawmatig neu ddirdynol sy'n digwydd cyn y bydd plentyn yn 18 oed yw ACEs, megis dioddef cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, neu fyw mewn cartref sydd wedi'i effeithio gan drais domestig neu gamdefnyddio cyffuriau. Mae unigolion sydd wedi cael ACEs yn wynebu risg uwch o gael iechyd gwael ar hyd y cwrs bywyd cyfan, gan gynnwys salwch meddwl [2,6] datblygu cyflyrau iechyd cronig yn gynnar (e.e. asthma, diabetes math 2 [1,7]), a marwolaethau cynamserol [7,8]. Mae cysylltiad hefyd rhwng ACEs ac sawl math o ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd (e.e. defnyddio cyffuriau), cyhraeddiad addysgol gwael, trais a chyswllt gyda'r system cyfiawnder troseddol [9-12]. Y mwyaf o ACEs y mae pobl yn eu cael, y mwyaf yw'r risg o ganlyniadau negyddol [12].



y cenedlaethau, mae tua 65% o wrywod â rhiant sydd wedi'i garcharu yn ystod eu plentyndod yn debygol o droseddu ar ryw adeg yn ystod eu bywydau [26]. Felly mae atal ACEs a chefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt yn hollbwysig er mwyn osgoi trosglwyddo ACEs ar draws y cenedlaethau a gwella iechyd y boblogaeth. Mae polisi Llywodraeth Cymru: *Ffyniant i Bawb: Y strategaeth genedlaethol*, yn pennu agenda genedlaethol ar gyfer atal ACEs a chefnogi unigolion sydd wedi'u heffeithio gan drawma yn ystod plentyndod [27]. Mae hyn yn cynnwys y flaenoriaeth o sefydlu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o ACEs (e.e. wedi'u haddysgu ar effaith ACEs) ar hyd a lled Cymru [27]. Fel rhan hollbwysig o'r gwaith o ddatblygu cymdeithas sy'n ymwybodol o ACEs, mae'n hollbwysig bod gan asiantaethau cyfiawnder troseddol ddealltwriaeth o gyfraddau ACEs ymhlith y rhai sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol.

Er nad yw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Gymru,

mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio ei ymrwymiad i leihau troseddu/aidroseddu yn y *Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru* [28]. Mae'r fframwaith yn nodi bod atal ac ymyrraeth gynnar mewn achosion o ACEs yn flaenoriaeth i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Gellir defnyddio gwybodaeth gynyddol am gyfraddau ACEs ymysg carcharorion fel sail i'r broses o roi ymyriadau priodol ac effeithiol ar waith gydag unigolion y mae angen cymorth arnynt. Er mwyn cyfrannu at y ddealltwriaeth hon, yma rydym wedi edrych ar gyfraddau ACEs ymhlith y boblogaeth o garcharorion gwrywaidd yn y DU. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn archwilio'r berthynas rhwng ACEs a hanes troseddu, mathau o droseddau a chysylltiad â thrais. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn ychwanegu at y dystiolaeth am ACEs a throseddu ac yn helpu i ganfod buddiannau posibl sicrhau bod y sector cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o fathau o drawma (h.y. yn deall y profiadau yn ystod plentyndod a allai fod yn sail i droseddu).



## 2. Dulliau

**Yn 2018, cynhaliodd Uned Gydwethredu Iechyd Cyhoeddus ym Mhrifysgol Bangor ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth gyntaf o gyfraddau ACEs mewn carchar i ddynion yng Nghymru. Casglwyd y data rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2018. Nod yr Arolwg o ACE Carcharorion oedd ceisio mesur cyfraddau ACEs ymhlith y boblogaeth o garcharorion ac archwilio unrhyw gysylltiadau rhwng ACEs a mathau o droseddau. Roedd yr arolwg hefyd yn ymchwilio i'r cysylltiad rhwng ACEs a throeddau.**

Roedd cwestiynau'r arolwg yn cynnwys: offeryn sefydledig i gofnodi cysylltiad ag 11 o fathau o ACEs; demograffeg y cyfranogwyr (e.e. oedran, ethnigrwydd); nifer yr euogfarnau a'r mathau o droseddau; nifer y cyfnodau yn y carchar; a chyfanswm yr amser (gydol oes) yn y carchar (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am y cwestiynau a holwyd). Roedd yr arolwg hwn hefyd yn casglu gwybodaeth am strwythur y teulu ac iechyd a llesiant y cyfranogwr. Roedd pob un o'r mesurau yn rhai a hunanadroddwyd.

Er mwyn cymryd rhan yn yr astudiaeth, roedd yn rhaid i unigolion fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys: 18-69 oed; yn gallu cyfrannu'n wybyddol; a heb fod yn cael eu rheoli o dan weithdrefnau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm ar y pryd. Cafodd darpar gyfranogwyr eu hysbysu am yr astudiaeth drwy hysbysebion ar fannau gwybodaeth electronig i garcharorion, a dosbarthwyd taflenni yn disgrifio'r astudiaeth mewn unedau carchardai a bu'r ymchwilyr yn ymweld ag unedau carchardai i siarad wyneb yn wyneb â'r carcharorion. Roedd yr holl ddeunyddiau'n esbonio'n glir mai diben yr astudiaeth oedd ymchwilio i brofiadau plentyndod y cyfranogwyr ac y byddai hyn yn cynnwys cwestiynau personol megis a oeddent erioed wedi cael eu cam-drin, wedi gweld trais yn y cartref neu a oedd aelodau o'u haelwyd wedi defnyddio cyffuriau. O ganlyniad i'r hysbysebion a'r taflenni, mynegodd 100 o unigolion ddiddordeb mewn cymryd rhan yn wreiddiol. Cysylltwyd â 596 o unigolion eraill i ofyn iddynt gymryd rhan. O blith y 696 o unigolion, cytunodd 529 i gymryd rhan mewn cyfweiliad a gwrthododd 167. Cwblhaodd chyfanswm o 470 o unigolion yr holiadur: ni wnaeth

59 o'r rhai a wirfoddolodd gymryd rhan yn yr ymchwil (e.e. oherwydd iddynt dynnu eu henw yn ôl, am nad oeddent yn gymwys neu roeddent wedi gadael y carchar yn ystod cyfnod yr astudiaeth; gweler Atodiad 1). Maint y sampl terfynol i'w ddadansoddi oedd 468 (cafodd dau unigolyn eu tynnu o'r dadansoddiad o ganlyniad i ddata coll am ACEs).

Roedd y dadansoddiadau ar gyfer yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyfraddau cyffredinol ACEs a'r cysylltiadau rhwng ACEs a demograffeg (h.y. oedran, ethnigrwydd, cyrhaeddiad addysgol; gweler Atodiad 1), hanes troseddau (e.e. wedi'u carcharu mewn sefydliad troseddwr ifanc, troseddwr cyson iawn) a mathau o droseddau (gweler Atodiad 2 am yr holl dablau data). Archwiliwyd hefyd y cysylltiadau rhwng ACEs a chyflawni trais ac erledigaeth yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y dadansoddiadau'n archwilio ACEs gan ddefnyddio newidyn nifer a oedd yn categoreiddio cyfranogwyr yn seiliedig ar nifer yr ACEs a brofwyd yn ystod plentyndod: dim ACE, un ACE, dau i dri ACE, a phedwar ACE neu fwy. Mae manylion pellach am y fethodoleg a'r dadansoddiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.


Rhodddwyd cymeradwyaeth ar gyfer y gwaith ymchwil gan HMPPS (a elwid gynt yn Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr [NOMS]) y Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol a Swyddfa Ymchwil a Datblygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG a Phwyllgor Moeseg Gofal Iechyd a'r Gwyddorau Meddygol Prifysgol Bangor.

# 3. Canfyddiadau


## 3.1. Demograffeg y sampl

Cwblhaodd cyfanswm o 468 o gyfranogwyr gwrywaidd yr arolwg. Roedd eu chwarter (25.4%) yn 24 oed neu'n iau adeg yr arolwg, gyda thros eu hanner yn 30 oed neu'n hŷn (ystod 18-69; Ffigur 1). Dywedodd bron saith o bob 10 mai eu cenedligrwydd oedd Cymreig (68.6%; Ffigur 2) a dywedodd y mwyafrif ohonynt fod eu hethnigrwydd yn wyn (84.2%; Tabl A1). Dywedodd mwy na chwech o bob 10 (63.5%) eu bod yn dadau. Dangosir cymhariaeth o'r sampl a chyfanswm y boblogaeth o garcharorion ar gyfer CEM Parc a'r carcharorion gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr yn Atodiad 1 (Tabl Aiii).

**Ffigur 1: Oedran y cyfranogwyr**




**Ffigur 2: Cenedligrwydd y cyfranogwyr**



Dywedodd bron i draean (31.0%) o'r sampl nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau addysgol, gyda dim ond traean (32.5%) yn dweud eu bod wedi ennill cymhwyster addysg bellach (e.e. coleg/chweched dosbarth) neu uwch (e.e. prifysgol) (Ffigur 3; Atodiad 2, Tabl A1).

Cyn cael eu carcharu, roedd llai na hanner yr holl unigolion a gwblhaodd yr arolwg wedi bod mewn cyflogaeth (48.5%; llawn amser/rhan amser neu'n hunangyflogedig), gyda mwy nag un o bob 10 (11.1%) yn dweud nad oeddent wedi bod mewn cyflogaeth o ganlyniad i salwch hirdymor neu anabledld hirdymor (LTSD; Atodiad 2, Tabl A1).

**Ffigur 3: Y lefel uchaf o gymhwyster addysgol a gyflawnwyd**




- Dim cymwysterau
- Addysg uwchradd (e.e. Lefel O, TAU/TGAU, NVQ lefel 1 neu 2, City & Guilds Craft)
- Addysg Bellach (e.e. AS/Safon Uwch, Prentisiaeth, NVQ lefel 3, City & Guilds Advanced Craft)
- Addysg uwch (e.e. gradd Prifysgol, NVQ lefel 4-5, Diploma uwch)

### 3.2. Cyfraddau ACEs

Roedd yr arolwg yn mesur cysylltiad carcharorion ag 11 math o ACEs cyn eu bod yn 18 oed (gweler Atodiad 1, Tabl Ai ar gyfer y cwestiynau a ddefnyddiwyd). Roedd mwy nag wyth o bob 10 (84.1%) o gyfranogwyr yn dweud eu bod wedi cael o leiaf un ACE, gydag ychydig yn llai na'u hanner yn dweud eu bod wedi dod i gysylltiad â phedwar ACE neu fwy (45.5%; Ffigur 4). Roedd cyfran y carcharorion a oedd yn datgan eu bod

wedi cael ACEs unigol yn amrywio o 11.5% yn nodi esgeulustod corfforol i 57.8% yn nodi rhieni'n gwahanu neu'n ysgaru. Dywedodd traean (32.9%) fod aelod o'u haelwyd wedi treulio cyfnod yn y carchar neu wedi'i ddedfrydu i garchar neu sefydliad troseddwr ifanc pan oeddent yn tyfu i fyny. Dangosir cymhariaeth gyda nifer yr ACEs ymysg gwrywod yn y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru ym Mluch 2.


**Ffigur 4: Cyfraddau ACEs unigol a nifer yr ACEs**




### Blwch 2: Cymhariaeth ag Astudiaeth Cymru o ACE a Gwydnwch 2017 [2]

O gymharu ag Astudiaeth Cymru o ACE a Gwydnwch 2017, a oedd yn gofyn i breswylwyr yng Nghymru yn y boblogaeth gyffredinol a oeddent wedi cael yr un 11 ACE, adroddodd unigolion yn yr Arolwg ACEs Carcharorion eu bod wedi cael nifer sylweddol uwch o ACEs. Dywedodd bron hanner yr holl unigolion (45.5%) yn yr Arolwg ACEs Carcharorion eu bod wedi dod i gysylltiad â phedwar ACE neu fwy, o gymharu ag ychydig dros un o bob 10 (11.9%) o wrywod yn yr arolwg o'r boblogaeth gyfan (cyfradd heb ei haddasu; Ffigur 5). Roedd cyfradd yr holl ACE unigol yn uwch yn yr astudiaeth hon nag yn y boblogaeth gyffredinol; cyflwynir cymariaethau yn Atodiad 2 (Tabl A2).

**Ffigur 5: Nifer yr ACEs a fesurwyd yn y boblogaeth wrywaidd gyffredinol yng Nghymru (Astudiaeth Cymru o ACE a Gwydnwch 2017) ac Arolwg ACEs Carcharorion 2018**



**Ffigur 6: Y gyfran a ddywedodd bod ganddynt gymwysterau addysgol yn ôl nifer yr ACEs (dim ACEs a phedwar ACE neu fwy)**



### 3.2.1. Y berthynas rhwng ACEs a demograffeg cyfranogwyr

#### Nifer yr ACEs

Nid oedd unrhyw gysylltiad arwyddocaol rhwng nifer yr ACEs yr oedd unigolion yn eu datgan a'u hoedran, ethnigrwydd neu genedligrwydd (Atodiad 2, Tabl A1).

Roedd nifer uwch o ACEs yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol sylweddol is (h.y. cyfradd is o gymwysterau addysg bellach ac uwch;  $p < 0.05$ ; Atodiad 2, Tabl A1). Cynyddodd cyfran yr unigolion a ddywedodd fod ganddynt bedwar ACE neu fwy o 20.0% o'r rhai â chymwysterau addysg uwch i 45.5% i'r rhai heb unrhyw gymwysterau (Ffigur 6). Nid oedd gan ychydig o dan draean (31.0%) o unigolion â phedwar ACE neu fwy unrhyw gymwysterau addysg ffurfiol o gymharu ag ychydig dros ddau o bob 10 (21.6%) o'r rhai heb ACEs.

Roedd cysylltiad arwyddocaol hefyd rhwng nifer fwy o ACEs a bod yn ddi-waith neu'n sâl neu anabl yn yr hirdymor cyn mynd i'r carchar (Atodiad 2, Tabl A1). Dim ond 39.4% o unigolion a ddywedodd bod ganddynt bedwar ACE neu fwy a oedd wedi bod mewn gwaith cyn mynd i'r carchar, o gymharu â 62.2% o'r rhai heb ACEs ( $p < 0.05$ ).

#### ACEs Unigol

Roedd cyfraddau cam-drin corfforol, rhieni'n gwahanu a chael eu magu ar aelwyd lle roedd aelod o'r teulu yn y carchar yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran. Roedd y cyfrannau a nododd bod eu rhieni wedi gwahanu a bod aelod o'r aelwyd yn y carchar ar ei huchaf yn y grŵp oedran ieuengaf ac ar ei hisaf yn y grŵp oedran hynaf. Er enghraifft, gostyngodd yr aelodau o'r aelwyd a oedd yn y carchar o 48.8% ymhlith y rhai 18-20 oed i 22.2% ymhlith y rhai 40-69 oed ( $p < 0.05$ ; Atodiad 2, Tabl A1). Roedd y gwrthwyneb yn wir am gam-drin corfforol, a oedd yn cynyddu gydag oedran, o 14.0% o'r rhai 18-20 oed i 50.8% o'r rhai 40-69 oed ( $p < 0.001$ ; Atodiad 2, Tabl A1). Yr unig ACE lle y cafwyd cysylltiad arwyddocaol ag ethnigrwydd oedd aelod o'r aelwyd yn camddefnyddio alcohol, gyda chyfraddau uwch ymhlith yr ymatebwyr gwyn (33.0% o gymharu ag 17.6% ymhlith unigolion nad oeddent yn wyn;  $p < 0.05$ ; Atodiad 2, Tabl A1).

Roedd cyfraddau rhieni'n gwahanu, aelod o'r aelwyd yn y carchar, camddefnyddio cyffuriau ac esgeulustod emosiynol yn uwch ymhlith y rhai â chyrhaeddiad addysgol is (dim cymwysterau neu gymwysterau uwchradd yn unig) o gymharu â'r rhai â chymwysterau addysg bellach neu uwch. Er enghraifft, cynyddodd cyfran y rhai a oedd yn datgan bod aelod o'r aelwyd wedi bod yn y carchar yn ystod eu plentynod o 8.6% ymhlith y rhai â chymwysterau addysg uwch i 37.9% ymhlith y rhai heb unrhyw gymwysterau ( $p < 0.05$ ; Atodiad 2, Tabl A1).

### 3.3. Hanes troseddu

#### 3.3.1. Troseddwy'r ifanc

Roedd ychydig o dan hanner (45.9%; Atodiad 2, Tabl A3) yn datgan eu bod wedi treulio dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc (YOI).

Roedd y gyfran a oedd wedi treulio dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn uwch ymhlith unigolion iau (65.1% o bobl ifanc 18-20 oed o gymharu â 32.5% o bobl 40-69 oed;  $p < 0.001$ ) a'r rhai a oedd yn datgan nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau addysgol (54.5% o'r rhai heb unrhyw gymwysterau, o gymharu â 14.3% o'r rhai gyda chymwysterau addysg uwch;  $p < 0.001$ ; Atodiad 2, Tabl A3).

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng carcharu mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc ac ACEs (Ffigurau 7 ac 8). O'r rhai â phedwar ACE neu fwy, adroddodd 60.6% eu bod wedi treulio amser mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc, o gymharu â 25.7% o'r rhai heb unrhyw ACE ( $p < 0.001$ ; Ffigur 8; Atodiad 2, Tabl A3). Roedd mwy na naw o bob 10 (91.2%) o garcharorion a oedd wedi treulio dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc wedi cael o leiaf un ACE, gyda chwech o bob 10 (60.0%) yn dweud eu bod wedi cael pedwar ACE neu fwy ( $p < 0.001$ ; Ffigur 7).

Dywedodd mwy na chwech o bob 10 (62.3%) o garcharorion a oedd wedi dweud eu bod wedi cael ACE ar ffurf aelod o'r aelwyd wedi'i garcharu, eu bod wedi treulio amser mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc.


Roedd **45.9%** o garcharorion wedi bwrw dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc

Roedd gan **91.2%** o garcharorion a oedd wedi bwrw dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc o leiaf un ACE ac roedd gan 60.0% bedwar neu fwy


Roedd carcharorion â phedwar ACE neu **fwy 4.2 gwaith** yn fwy tebygol o fod wedi treulio amser mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc o gymharu â charcharorion heb unrhyw ACE

Roedd y berthynas rhwng nifer yr ACEs a charcharu mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn parhau ar ôl ystyried demograffeg cyfranogwyr (h.y. oedran, ethnigrwydd a chymwysterau addysgol). Roedd yr ods (cymhareb ods wedi'i haddasu, AOR) o fod wedi treulio amser mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc 4.2 gwaith yn uwch ymhlith carcharorion â phedwar ACE neu fwy o gymharu â charcharorion heb unrhyw ACE (Ffigur 8; Atodiad 2, Tabl A5).

**Ffigur 7: Carcharu mewn YOI yn ôl nifer yr ACEs**



**Ffigur 8: Carcharu mewn YOI: canran a chymhareb ods wedi'i haddasu (AOR) yn ôl nifer yr ACEs**






### 3.3.2. Nifer y cyfnodau yn y carchar (yn ystod eu hoes)

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sawl gwaith yr oeddent wedi bod yn y carchar o'r blaen. Dywedodd tri o bob 10 (29.5%; Atodiad 2, Tabl A4) mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt fod yn y carchar yn ystod eu bywyd. Dywedodd 14.5% pellach mai hwn oedd eu hail gyfnod yn y carchar (h.y. roeddent wedi bod yn y carchar unwaith o'r blaen), gyda thros hanner (56.0%) yn dweud eu bod wedi treulio mwy o gyfnodau yn y carchar o'r blaen (h.y. o leiaf ddwywaith). Dywedodd bron i ddau o bob 10 (16.2%) eu bod wedi bod yn y carchar >10 gwaith cyn y cyfnod hwn yn y carchar.

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng nifer y cyfnodau yn y carchar ac oedran, ethnigrwydd a chymwysterau, gydag unigolion a oedd yn hŷn, ag ethnigrwydd gwyn, a'r rhai heb unrhyw gymwysterau yn dweud eu bod wedi treulio nifer fwy o gyfnodau yn y carchar (Atodiad 2, Tabl A4).

Roedd cysylltiad cadarnhaol rhwng ACSE a'r nifer o weithiau yr oedd cyfranogwyr wedi bod yn y carchar. Roedd y gyfran o unigolion a ddywedodd eu bod wedi cael pedwar ACE neu fwy yn cynyddu o 25.4% o'r rhai a oedd yn y carchar am y tro cyntaf i 58.9% o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi bod yn y carchar  $\geq 7$  gwaith ( $p < 0.001$ ; Ffigur 9). Ar ôl addasu ar gyfer demograffeg y cyfranogwyr (h.y. oedran, ethnigrwydd a chymwysterau addysgol) roedd yr ods o fod wedi bod yn y carchar nifer fwy o weithiau yn cynyddu gyda nifer yr ACEs, ond roedd hyn ond yn arwyddocaol ymysg y rhai â phedwar ACE neu fwy. O gymharu â'r carcharorion heb unrhyw ACE, roedd carcharorion gyda phedwar ACE neu fwy 4.9 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y carchar 3-6 gwaith (categori cyfeirnod y rhai yn y carchar am y tro cyntaf; CIs 2.236-10.633;  $p < 0.001$ ) ac roeddent 4.5 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y carchar  $\geq 7$  gwaith (CIs 2.013-9.943;  $p < 0.001$ ).

**Ffigur 9: Nifer y cyfnodau yn y carchar yn ôl nifer yr ACEs**





### 3.3.3. Cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn y carchar

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr beth oedd cyfanswm yr amser yr oeddent wedi'i dreulio yn y carchar yn ystod eu bywydau (hyd at adeg cwblhau'r arolwg a heb gynnwys y cyfnod a oedd ganddynt ar ôl yn y carchar). Dywedodd un o bob pump (21.6%) eu bod wedi treulio <1 flwyddyn o'u bywyd yn y carchar. Dywedodd pedwar o bob 10 (40.0%) eu bod wedi treulio >1 flwyddyn <5 mlynedd yn y carchar, dywedodd ychydig o dan un o bob pump (17.5%) eu bod wedi treulio >5 ond <10 mlynedd yn y carchar, a dywedodd un o bob pump (20.9%) eu bod wedi bod yn y carchar am  $\geq 10$  mlynedd o'u bywyd.

Roedd cysylltiad rhwng y cynnydd yng nghyfanswm yr amser yn y carchar a chynnydd mewn oedran ( $p < 0.001$ ) ond nid oedd unrhyw gysylltiadau arwyddocaol gydag ethnigrwydd neu gymwysterau addysgol (Atodiad 2, Tabl A4).

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng hyd yr amser yn y carchar a nifer yr ACEs, gyda 27.7% o'r rhai a oedd wedi bod yn y carchar am <1 yn dweud eu bod wedi cael pedwar ACE neu fwy, o gymharu â 57.5% o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi treulio >3 blynedd yn y carchar ( $p < 0.001$ ). Ar ôl addasu ar gyfer demograffeg (h.y. oedran, ethnigrwydd a chymwysterau addysgol), roedd yr ods o fod wedi bod yn y carchar am nifer fwy o weithiau yn cynyddu gyda nifer yr ACEs. O gymharu â'r carcharorion heb unrhyw ACE, roedd carcharorion gyda phedwar ACE neu fwy 2.4 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y carchar am >1 flwyddyn ond <3 blynedd (categori cyfeirnod y rhai yn y carchar am y tro cyntaf; CIs 1.056-5.681;  $p < 0.037$ ) ac roeddent 4.4 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y carchar >3 blynedd (CIs 2.013-9.943;  $< 0.001$ ).

### 3.3.4. Troseddwy cyson iawn

Holwyd unigolion faint o euogfarnau a oedd ganddynt (h.y. wedi'u cael yn euog o drosedd - nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw rybuddion a dderbyniwyd). Defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddsbarthu unigolion fel troseddwy cyson iawn neu droseddwy nad ydynt yn rhai cyson iawn. Yn unol â diffiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o droseddwy cyson iawn [29], cafodd unigolion eu categoreiddio fel troseddwr cyson iawn os oeddent rhwng 18-20 oed ac yn dweud bod ganddynt wyth neu fwy o euogfarnau, neu os oeddent yn 21 oed a throsodd ac yn dweud bod ganddynt 16 neu fwy o euogfarnau (gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth).

Dosbarthwyd bron i bedwar o bob 10 (38.5%) o'r cyfranogwyr yn droseddwy cyson iawn.

Roedd cyfran y troseddwy cyson iawn yn sylweddol uwch ymhlith y grwpiau oedran ieuegaf a hynaf (41.9% o'r rhai 18-20 oed yn lleihau i 22.4% o'r rhai 21-24 oed;  $p < 0.05$ ), unigolion ag ethnigrwydd gwyn (41.6% o gymharu â 21.6% o'r rhai ag ethnigrwydd arall;  $p = 0.001$ ) a'r rhai heb unrhyw gymwysterau (41.4% o gymharu â 14.3% ymhlith y rhai â chymhwyster addysg uwch;  $p < 0.05$ ; Atodiad 2, Tabl A3).

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng troseddwy cyson iawn a nifer yr ACEs (Ffigurau 10 ac 11). Roedd y gyfran o droseddwy cyson iawn yn cynyddu gyda nifer yr ACEs, gyda 25.7% o'r rhai heb ACEs yn droseddwy cyson iawn, o gymharu â 52.1% o'r rhai gyda phedwar ACE neu fwy (Ffigur 11; Atodiad 2, Tabl A3).

Dosbarthwyd **38.5%** o'r sampl fel troseddwy cyson iawn


Roedd gan **89.4%** o droseddwy cyson iawn o leiaf un ACE ac roedd gan 61.7% bedwar ACE neu fwy

Roedd carcharorion â phedwar ACE neu **fwy 3.4 gwaith** yn fwy tebygol o fod yn droseddwy cyson iawn o gymharu â charcharorion heb unrhyw ACE


Dyweddodd naw o bob 10 (89.4%) o droseddwy cyson iawn bod ganddynt o leiaf un ACE, gyda chwech o bob 10 (61.7%) yn dweud bod ganddynt bedwar ACE neu fwy ( $p < 0.001$ ; Ffigur 10).

Roedd y berthynas rhwng nifer yr ACEs a throseddu cyson yn parhau ar ôl addasu ar gyfer demograffeg y cyfranogwyr. Roedd unigolion â phedwar ACE neu fwy 3.4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn droseddwy cyson iawn o gymharu â charcharorion heb unrhyw ACE (Ffigur 11; Atodiad 2, Tabl A5).

**Ffigur 10: Troseddu cyson iawn yn ôl nifer yr ACEs**



**Ffigur 11: Troseddu cyson iawn: canran a chymhareb ods wedi'i haddasu (AOR) yn ôl nifer yr ACE**




### 3.4. Y berthynas rhwng ACEs a mathau o droseddau

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddweud pa fath o droseddau yr oeddent wedi'u cael yn euog ohonynt (o restr o 13 math o drosedd; Ffigur 12; Atodiad 1, Tabl Aii). Nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw rybuddion y gallent fod wedi'u derbyn, neu droseddau y gallant fod wedi'u cyflawni ond na chawsant eu dyfarnu'n euog ohonynt.

Y math mwyaf cyffredin o drosedd oedd lladrad (54.9% o'r cyfranogwyr), yna cyffuriau a thrais gydag anaf. Y math lleiaf cyffredin o drosedd oedd dynladdiad (4.1%). Dywedodd dros un o bob 10 (14.7%) fod ganddynt euogfarn am drosedd rhywiol (Ffigur 12). Ar gyfartaledd, roedd yr unigolion yn datgan eu bod wedi'u cael yn euog o bedwar math o drosedd (amrediad o un i 11).


Cafodd y mathau o droseddau eu rhannu'n saith categori cyffredinol at ddibenion dadansoddi: trais yn erbyn yr unigolyn (VAP), gyrru, dwyn, difrod troseddol, cyffuriau, trefn gyhoeddus a throseddau rhywiol (Ffigur 13 ac Atodiad 1, Tabl Aii). Roedd nifer yr ACEs yn amrywio yn ôl y math o droseddau ac roedd cysylltiadau cryf rhwng rhai mathau o droseddau ac ACEs (Ffigur 13; Atodiad 2, Tabl A3). Er enghraifft, roedd gan 52.7% o'r rhai ag euogfarnau am drais yn erbyn yr unigolyn (VAP) bedwar ACE neu fwy, o gymharu â 30.5% o'r rhai heb yr euogfarnau hyn. Ar gyfer difrod troseddol, y ffigurau hyn oedd 61.0% a 32.5% yn y drefn honno. Nid oedd unrhyw gysylltiadau rhwng nifer yr ACEs a throseddau rhywiol neu droseddau gyrru.

**Ffigur 12: Cyfraddau'r math o droseddau**



\*Roedd arall yn opsiwn ychwanegol ac mae'n cynnwys y mathau eraill o droseddau nad oedd yn bosibl eu dosbarthu i fathau eraill.

**Ffigur 13: Cyfraddau'r mathau o droseddau yn ôl nifer yr ACEs**



VAP = Trais yn erbyn yr unigolyn.

Roedd y berthynas rhwng ACEs a mathau o droseddau yn parhau ar ôl addasu ar gyfer demograffeg y cyfranogwyr (Atodiad 23, Tablau A6a ac A6b). O gymharu â charcharorion heb unrhyw ACEs, roedd carcharorion gyda phedwar ACE neu fwy:

- 3.5** gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o **ddifrod troseddol**
- 2.9** gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o **drais yn erbyn yr unigolyn**
- 2.6** gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o **ddwyn**
- 2.6** gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o drosedd **trefn gyhoeddus**
- 1.8** gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o **droseddau cyffuriau**

### 3.5. Cysylltiad â thrais

Er mwyn gallu ymchwilio i'r cysylltiad â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf, waeth pa fathau o droseddau a ddatganwyd, gofynnwyd i bob cyfranogwr hunanadrodd ar y canlynol:

#### Cyflawni trais

Sawl gwaith yr oeddent wedi taro rhywun yn gorfforol yn ystod y 12 mis diwethaf

#### Dioddef trais

Sawl gwaith yr oeddent hwy wedi cael eu taro'n gorfforol yn ystod y 12 mis diwethaf

Roedd hyn yn cynnwys unrhyw gysylltiad â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf. Ni wnaethom wahaniaethu rhwng cyflawni trais a dioddef trais a oedd wedi digwydd yn y carchar a'r tu allan i'r carchar (gweler Adran 4.6).




### 3.5.1. Cyflawni trais

Dywedodd dros draean (37.3%) nad oeddent wedi cyflawni trais yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd bron i un o bob pump (19.5%) eu bod wedi cyflawni trosedd ddwywaith neu fwy yn ystod y cyfnod (Ffigur 14).

Roedd y gyfran a ddywedodd eu bod wedi cyflawni trais yn lleihau gydag oedran, o 55.8% ymhlith carcharorion 18-20 oed i 28.6% ymhlith y rhai 40-69 oed ( $p < 0.001$ ). Roedd unigolion heb unrhyw gymwysterau addysgol hefyd yn datgan y lefelau uchaf o gyflawni trais (44.8%, yn lleihau i 14.3% ymhlith y rhai â chymhwyster addysg uwch;  $p < 0.05$ ; Atodiad 2, Tabl A3).

**Ffigur 14: Amllder cyflawni trais**



■ Byth ■ Unwaith ■ 2 neu 3 gwaith  
■ Mwy na 3 gwaith


O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cyflawni trais, dywedodd saith o bob 10 (69.5%) eu bod hefyd wedi dioddef trais eu hunain yn ystod y 12 mis diwethaf (gweler Adran 3.5.2).

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng cyflawni trais a phrofi'r holl fathau unigol o ACEs, ac eithrio cam-drin corfforol, esgeulustod corfforol neu fod aelod o'r aelwyd yn y carchar (Atodiad 2, Tabl A7).


Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng cyflawni trais a nifer yr ACEs (Ffigurau 15 ac 16). Dywedodd bron hanner (47.2%) y carcharorion a oedd wedi dod i gysylltiad â phedwar neu fwy o ACEs eu bod wedi bod yn dreisgar yn gorfforol yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu ag ychydig o dan chwarter (23.0%) a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw brofiad o ACEs ( $p < 0.001$ ; Ffigur 16; Atodiad 2, Tabl A3). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cyflawni trais, roedd gan 57.5% bedwar neu fwy o ACEs (Ffigur 15).

Roedd y cysylltiad rhwng cyflawni trais a nifer yr ACEs yn parhau ar ôl ystyried demograffeg y cyfranogwyr. Roedd unigolion a oedd wedi'u hamlygu i bedwar ACE neu fwy 3.0 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn y 12 mis diwethaf o gymharu â charcharorion nad oeddent wedi'u hamlygu i ACEs (Ffigur 16; Atodiad 2, Tabl A8). Roedd unigolion 18-20 oed 3.4 gwaith yn fwy tebygol o gyflawni trais o gymharu â charcharorion 40 oed a hŷn (Atodiad 2, Tabl A8).

**Ffigur 15: Cyflawni trais yn ôl nifer yr ACEs**



**Ffigur 16: Cyflawni trais: y ganran a'r gymhareb ods wedi'i haddasu (AOR) yn ôl nifer yr ACEs**



### 3.5.2. Dioddef trais




Dyweddod traean o'r sampl (34.5%) eu bod wedi dioddef trais yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd dau o bob 10 (19.5%) eu bod wedi dioddef trais ddwywaith neu fwy yn ystod y cyfnod hwn (Ffigur 17).

Nid oedd unrhyw gysylltiadau arwyddocaol rhwng dioddef trais a grŵp oedran, ethnigrwydd neu lefel cymwysterau addysgol y cyfranogwyr (Atodiad 2, Tabl A3).

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng dioddef trais a'r profiad o gael unrhyw fath unigol o ACE ac eithrio aelod o'r aelwyd yn y carchar (Ffigurau 18 a 19; Atodiad 2, Tabl A7). Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng dioddef trais a nifer yr ACEs, gyda 49.1% o'r carcharorion a ddaeth i gysylltiad â phedwar ACE neu fwy yn dweud eu bod wedi dioddef trais, o gymharu â 21.6% o garcharorion heb unrhyw ACE ( $p < 0.001$ ; Ffigur 19). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi dioddef trais, roedd gan 64.6% bedwar ACE neu fwy (Ffigur 18).

Ar ôl ystyried demograffeg gymdeithasol, roedd y berthynas rhwng dioddef trais a nifer yr ACEs

yn parhau. Roedd carcharorion a oedd wedi dod i gysylltiad â phedwar ACE neu fwy 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais yn ystod y 12 mis diwethaf o gymharu â'r carcharorion nad oeddent wedi'u dod i gysylltiad ag unrhyw ACE (Ffigur 19; Atodiad 2, Tabl A8).



# 4. Trafodaeth

## 4.1. Cyfraddau uchel o ACEs

Canfu'r Arolwg o ACEs ymysg Carcharorion lefelau uchel o niwed yn ystod plentynodod ymhlith poblogaeth o garcharorion yng Nghymru, gydag 84.1% wedi dioddef o leiaf un ACE wrth dyfu i fyny a bron eu hanner yn datgan eu bod wedi dod i gysylltiad â phedwar ACE neu fwy. Mae hyn yn gyson â chyfraddau ACEs yn rhyngwladol a ganfuwyd mewn poblogaethau a fu'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder [4,30,31]. Er enghraifft, mewn sampl o droseddwr gwrywaidd yn yr Unol Daleithiau, dim ond 9.3% a ddywedodd nad oeddent wedi cael unrhyw ACE a dywedodd 48.3% eu bod wedi cael pedwar neu fwy [32]. Yn yr Arolwg o ACEs ymysg Carcharorion, roedd y rhai â phedwar ACE neu fwy dair gwaith yn uwch na'r lefel a nodwyd ar gyfer gwrywod yn y boblogaeth gyffredinol (11.9%) yn astudiaeth Cymru o ACEs a Gwydnwch 2017, a oedd yn mesur yr un 11 ACE [2]. Roedd nifer yr ACEs yn yr Arolwg o ACEs ymysg Carcharorion yn uwch hefyd na'r hyn a nodwyd gan wrywod nad oeddent erioed wedi cael eu carcharu (h.y. wedi hunanadrodd nad oeddent erioed wedi treulio noson yn y carchar, neu mewn gorsaf heddlu; ; 26.3% 0 ACE, 20.1% 1 ACE, 24.7% 2-3 ACE, 29.0%  $\geq 4$  ACE, n= 876) mewn arolygon blaenorol o ACEs yn y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr. At hynny, nododd yr Arolwg o ACEs ymysg Carcharorion gyfraddau uwch o'r holl ACEs unigol na'r hyn a ganfuwyd mewn astudiaethau o'r boblogaeth gyfan ar draws Cymru a Lloegr [10,33].

Nid oes unrhyw astudiaethau blaenorol wedi ymchwilio i nifer yr ACEs ymhlith poblogaethau carcharorion y DU. Fodd bynnag, ar gyfer ACEs unigol, mae'r lefelau a nodwyd yn yr astudiaeth hon yn debyg i'r rhai a nodwyd ymhlith carcharorion yn yr Alban [20]. Dywedodd pedwar o bob 10 (40%) o gyfranogwr yn ein hastudiaeth eu bod wedi profi trais domestig yn eu cartref wrth dyfu i fyny, o gymharu â 44% o'r ymatebwyr gwrywaidd mewn carchar yn yr Alban [20]. Nodwyd cyfraddau tebyg hefyd ar draws astudiaethau o gam-drin corfforol (41% yn yr astudiaeth hon o gymharu â 44% yn yr Alban) a salwch meddwl (28% a 32% yn y drefn honno). Fodd bynnag, ni ellir gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng arolygon oherwydd y gwahaniaethau ym mhoblogaethau'r astudiaethau (h.y. ystod oedran y cyfranogwr), methodoleg (e.e. sut y cynhaliwyd yr arolwg), y cwestiynau a holwyd a chodio ymatebion (e.e. cam-drin llafar/emosiynol a cham-drin rhywiol). Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos cyfraddau uchel o niwed yn ystod plentynodod ymhlith poblogaethau sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder ac yn cadarnhau'r cysylltiadau rhwng dod i gysylltiad ag ACEs a throseddau. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran dod i gysylltiad â thrawma ymhlith poblogaethau mewn carchardai [34], dylai gwaith ymchwil pellach edrych ar gyfraddau ACEs a'r cysylltiadau gyda throseddau a chylchoedd rhwng y cenedlaethau o fewn poblogaethau o droseddwr benywaidd yn y DU.



## 4.2. ACEs a demograffeg y cyfranogwyr

Ni chanfu'r Arolwg o ACEs ymysg Carcharorion unrhyw gysylltiadau arwyddocaol rhwng nifer yr ACEs ac oedran cyfranogwyr, gan bwysleisio bod oedolion a oedd yn gysylltiedig â'r system gyfiawnder yn dweud eu bod wedi cael niwed yn ystod plentyndod beth bynnag eu hoedran. Er na wnaethom wahaniaethu rhwng cyrhaeddiad addysgol yn ôl lleoliad addysgu (h.y. a gafodd y cymwysterau eu hennill yn y carchar ynteu mewn lleoliad addysgol traddodiadol; gweler Adran 4.6), mae'r lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol a nodwyd yn yr astudiaeth hon yn gyson â lefelau isel o addysg a sgiliau llythrennedd gwael a ganfyddir yn aml ymhlith poblogaethau sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder [35]. Roedd gan unigolion a oedd wedi dweud bod ganddynt ACEs lluosog ganlyniadau addysgol sylweddol is, gyda bron i draean o'r rhai â phedwar ACE neu fwy (31.0%) yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw gymhwyster addysgol ffurfiol. Roedd cysylltiad hefyd rhwng bod yn ddi-waith cyn mynd i'r carchar. O'r sampl a oedd yn ddi-waith cyn mynd i'r carchar (36.1%), roedd dros eu hanner (54.4%) wedi dweud bod ganddynt bedwar ACE neu fwy.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â llenyddiaeth ryngwladol sy'n dangos effaith ACEs ar absenoldeb mewn ysgolion, cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth ymhlith oedolion [9,11,36,37]. Mae cysylltiad rhwng ymgysylltu ag addysg neu gwblhau cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol yn y carchar a chanlyniadau cyflogaeth gwell ar ôl cael eu rhyddhau [38] a gostyngiadau sylweddol o ran aildroseddu [39,40]. Mae unigolion sydd yn y carchar heb unrhyw gymwysterau yn debygol o ddechrau eu haddysg yn y lleoliad hwn. O ystyried y cyfraddau uchel o ACEs ymysg y garfan hon, gallai addysg mewn carchardai ddilyn modelau yn y boblogaeth gyffredinol [41] i fabwysiadu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar ACEs (e.e. staff yn deall ACE) a allai helpu i wella cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau cyflogaeth i'r unigolion hynny ar ôl cael eu rhyddhau.

Defnyddiwyd cymwysterau addysgol fel mesur procsi o amddifadedd gyda dim cymwysterau yn cynrychioli amddifadedd uchel, a chymwysterau addysg uwch yn cynrychioli amddifadedd isel (mae addysg yn un maes yn y mynegai amddifadedd lluosog [MALL] - sef mesur safonol ar gyfer cymharu amddifadedd rhwng ardaloedd; gweler [42]). Gan ddefnyddio'r mesur procsi hwn, gwelodd yr arolwg hwn lefelau uchel

o amddifadedd ymhlith unigolion a oedd yn gysylltiedig â chyfiawnder. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod amddifadedd yn rhagfynegydd pwysig o ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais a throseddu [43-45]. At hynny, gallai'r cyfalaf cymdeithasol a systemau cymorth sydd ar gael i unigolion fod yn is mewn ardaloedd sy'n wynebu anghydraddoldebau strwythurol ehangach [47]. Mae ymchwil wedi dangos bod anfantais uwch a chyfoeth is ar lefel gymunedol yn effeithio ar gysylltiad pobl ag ACEs [48], gyda thlodi ac amddifadedd cymdeithasol yn ffactorau risg hysbys ar gyfer troseddoldeb [45,49,50]. Felly, gallai gwella gwydnwch (h.y. y gallu i oresgyn caledi difrifol) ar lefel gymunedol a chreu amgylcheddau cefnogol chwarae rôl bwysig o ran atal niwed, neu liniaru ei effeithiau negyddol, a lleihau troseddu [51,52]. Os ydynt yn hyddysg ynghylch trawma (h.y. yn deall y profiadau yn ystod plentyndod a allai fod yn sail i droseddu), gallai carchar fel cymuned gynig cyfle i ddarparu amgylchedd adsefydlu a chefnogol, a allai ddatblygu gwydnwch unigolion cyn iddynt gael eu dychwelyd i'r gymuned ehangach.

Mae'r canfyddiadau yn yr astudiaeth hon yn pwysleisio'r angen i fynd i'r afael â niwed, sy'n cyd-fodoli, a chynyddu gwydnwch hefyd ar draws lefelau unigol, teuluol a chymunedol. Mae nifer o ffactorau y profwyd eu bod yn cynyddu gwydnwch ac yn cynnig ffactorau amddiffynnol i unigolion sydd wedi dod i gysylltiad ag ACEs (e.e. cael perthynas gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn ystod plentyndod [2,33]). Fodd bynnag, nid yw'r ffactorau amddiffynnol hyn yn atal risgiau sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad ag ACEs lluosog yn llwyr, ac mae unigolion ag ACEs yn dweud bod ganddynt adnoddau gwydnwch is, felly, dylai'r ffocws ar atal ACEs ar lefel sylfaenol barhau hefyd. Mae ymchwil wedi dechrau i ffactorau amddiffynnol a allai atal y cysylltiadau rhwng ACEs a throseddu (e.e. cysylltiadau cymdeithasol, gweler [30], a chefnogaeth gymdeithasol, gweler [53]). Fodd bynnag, dylai ymchwil yn y dyfodol edrych ar y ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig â throseddu o safbwynt y DU, gan gynnwys eu perthynas â'r canlyniadau sy'n cael eu harchwilio yn yr astudiaeth hon (e.e. carcharu mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc, troseddu cyson iawn, cysylltiad â thrais).



## 4.3. Y cysylltiad rhwng ACEs a throsteddu

### 4.3.1. Cylchoedd rhwng y cenedlaethau

Mae ymchwil wedi dangos y gall troseddoldeb ac erledigaeth fod yn rhywbeth sy'n trosglwyddo rhwng y cenedlaethau [54]. Gall ACEs ddigwydd ar draws y cenedlaethau hefyd pan fydd unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â niwed a straen yn ystod plentyndod yn datblygu dulliau ymdopi gan gynnwys camddefnyddio alcohol ac amlygu eu plant eu hunain i ACEs [55, 56]. Gall carcharu rhieni hefyd ragweld canlyniadau gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc [26]. Dywedodd traean (32.9%) o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon fod aelod o'u haelwyd wedi bod yn y carchar neu wedi'i ddedfrydu i garchar neu Sefydliad Troseddwy'r Ifanc pan oeddent yn tyfu i fyny. Roedd cyfraddau'r ACE hwn yn uwch yn yr astudiaeth hon na'r nifer a nodwyd yn y carchar yn yr Alban, lle y dywedodd 23% o garcharorion gwrywaidd eu bod wedi cael yr ACE hwn [20], ond mae'n is na rhai amcangyfrifon mewn mannau eraill. Er enghraifft, mewn sampl o ddynion a oedd wedi'u carcharu yn yr Unol Daleithiau, dywedodd mwy na phedwar o bob 10 (46%), fod rhiant wedi'i garcharu [19]. O blith yr unigolion yn yr astudiaeth hon a ddywedodd eu bod wedi cael yr ACE lle roedd aelod o'u haelwyd wedi'i garcharu, dywedodd 62.3% eu bod wedi bwrw dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc. At hynny, dywedodd 63.5% o'r sampl cyffredinol eu bod wedi cael plant, ac y byddai'r plant hyn felly wedi'u hamlygu i'r math o ACE lle mae aelod o'r teulu wedi'i garcharu. Mae'n hollbwysig bod unigolion sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth pan fydd eu bywydau wedi'u heffeithio gan ACEs er mwyn osgoi throsteddu dilynol rhwng y cenedlaethau a throsglwyddo ACEs o riant i blentyn. Mae'r canfyddiadau hyn yn ychwanegu at y dystiolaeth ar y cylchoedd carcharu mewn teulu a phwysigrwydd rhoi sylw i berthnasoedd teuluol carcharorion, a phwysleisio'r angen am ymyrraeth gynnar sy'n cefnogi teuluoedd ar y cam cynharaf posibl er mwyn torri cylchoedd o'r fath rhwng y cenedlaethau. Un ymyrraeth sy'n defnyddio dull gweithredu teulu cyfan i leihau aildrosteddu a thorri'r cylch trosteddu rhwng y cenedlaethau yw Invisible Walls Wales (IWW). Mae gwerthusiadau cynnar o IWW wedi dangos tystiolaeth o newid cadarnhaol ymysg y carcharorion a'r teuluoedd dan sylw [57]. Fodd bynnag, mae angen ymchwil hydredol er mwyn archwilio effeithiolrwydd ymyriadau o'r fath ar gylchoedd trosteddu rhwng y cenedlaethau.

### 4.3.2. Carcharu mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc

Dywedodd bron hanner y sampl (45.9%) eu bod wedi bwrw dedfryd mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc, ac roedd y gyfran ychydig yn uwch ymysg cyfranogwyr iau a'r rhai â chyrhaeddiad addysgol isel. Roedd ACEs yn cynyddu'r ods yn sylweddol o fod wedi treulio amser mewn sefydliad o'r fath. O gymharu â charcharorion nad oeddent wedi cael unrhyw ACEs, roedd carcharorion gyda phedwar ACE neu fwy 4.2 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u carcharu mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc. Roedd mwy na naw o bob 10 (91.2%) o garcharorion a oedd wedi bwrw dedfryd mewn sefydliad o'r fath hefyd wedi cael o leiaf un ACE. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r corff mawr o ymchwil rhyngwladol sydd wedi canfod bod troseddwy'r sy'n blant neu'n bobl ifanc yn wynebu risg uwch o fod yn droseddwy'r pan fyddant yn oedolion [58,59]. Mae'r cyfraddau uchel o ACEs ymhlith y rhai sydd wedi'u carcharu mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn pwysleisio'r angen am ymyrraeth gynnar a allai atal y trosteddu cychwynnol ac atal pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder rhag aildrosteddu.

### 4.3.3. Trosteddu cyson iawn a throsteddu parhaus

Canfuwyd cysylltiadau cryf rhwng ACEs a throsteddu cyson iawn, gyda charcharorion a oedd yn dweud bod ganddynt bedwar ACE neu fwy 3.4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn droseddwr cyson a dywedodd bron i naw o bob 10 (89.4%) o droseddwy'r cyson iawn eu bod wedi cael o leiaf un ACE. Felly, dangoswyd bod ACEs yn cyflwyno risg o drosteddu ymhlith pobl ifanc, trosteddu parhaus a throsteddu cyson iawn. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil sydd wedi pwysleisio risg uwch o drosteddu pan fydd ACEs yn bresennol, gyda chysylltiad rhwng nifer cymedrig uwch o euogfarnau a nifer yr ACEs [16]. Felly, mae atal ACEs yn debygol o arwain at atal trosteddu a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag ACEs i'r system cyfiawnder trosteddol. Mae'r rhai â hanes o gam-drin, esgeulustod neu gamweithrediad teuluol yn ystod plentyndod yn debygol o fod angen triniaeth ac ymyrraeth ychwanegol [60]. Mae pwysigrwydd darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma (h.y. gwasanaethau sy'n cydnabod y berthynas rhwng hanes o drawma a materion sy'n gysylltiedig â throsteddu) yn y system cyfiawnder trosteddol yn dra hysbys [15,53]. Mae'r



canfyddiadau hyn yn dangos tystiolaeth o'r angen i'r gweithlu cyfiawnder troseddol ddeall profiadau bywyd yr unigolion y maent yn gweithio â hwy, a natur gymhleth eu hanghenion. Mae astudiaethau bach mewn carchardai wedi dangos bod dealltwriaeth wael o ACE ymhlith y gweithlu mewn carchardai [61]. Mae Ffyniant i bawb; y strategaeth genedlaethol [27] yn cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu gwasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar wybodaeth am ACEs sy'n cefnogi dulliau atal ACEs. O ganlyniad, mae rhaglen waith y sector cyfiawnder troseddol yn cael ei chynnal i greu dull system gyfan ar gyfer gweithio gydag unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o ddiodef, neu'r rhai sydd wedi diodef ACEs. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma neu ACEs ar draws yr heddlu, carchardai, cyfiawnder ieuencid, prawf a sefydliadau partner eraill [28,62-64]. O fewn carchardai a'r maes cyfiawnder ieuencid yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys cynorthwyo unigolion, eu teuluoedd a'r staff cyfiawnder troseddol i deimlo eu bod yn gallu mynd i'r afael â'u ACEs neu eu cynorthwyo i'w rheoli.

At hynny, mae'r canfyddiadau yn yr astudiaeth hon yn dangos bod gan unigolion sydd wedi bod yn y carchar fwy nag unwaith gyfradd uwch o ACEs. Cynyddodd y gyfradd o bedwar ACE neu fwy o 25.4% ymhlith y rhai a oedd yn y carchar am y tro cyntaf, i 42.6% ymhlith y rhai a oedd yn y carchar am yr ail waith a 58.9% ymhlith y rhai a oedd wedi bod yn y carchar >7 gwaith neu fwy. O gymharu â charcharorion heb unrhyw ACEs, roedd carcharorion gyda phedwar ACE neu fwy 4.9 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y carchar 3-6 gwaith a 4.5 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn y carchar >7 gwaith (categori cyfeirio y rhai a oedd yn y carchar am y tro cyntaf). Mae'r berthynas gref rhwng nifer yr ACEs a charchariad mewn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc, troseddu cyson iawn a'r nifer o weithiau y maent wedi bod yn y carchar yn dangos pwysigrwydd ymyrraeth gynnar gyda'r rhai sydd mewn perygl o ddiodef niwed yn ystod plentyndod a sicrhau bod y rhai sydd wedi cael ACEs yn derbyn sylw priodol. Gallai ymyrryd yn gynnar y tro cyntaf y bydd rhywun yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol eu hatal rhag cael eu charcharu eto yn y dyfodol, yn arbennig y rhai sydd ag ACEs niferus. Gallai ymholi am ACEs fel mater o drefn, lle mae gweithwyr proffesiynol yn meddu ar y sgiliau a'r hyder i ymholi'n rhagweithiol a sensitif am brofiadau yn ystod plentyndod a theilwra'r gefnogaeth yn unol â hynny yn y system

cyfiawnder troseddol helpu i nodi unigolion sydd mewn perygl o droseddu'n barhaus yn y dyfodol. Gallai ymholi am ACEs ddarparu cyfle i adnabod y rhai sy'n wynebu risg uwch o ddod yn rhan â'r system cyfiawnder troseddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ar gyfer ymholi fel mater o drefn ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw astudiaethau cyhoeddus sy'n edrych ar ganlyniadau ymholi fel mater o drefn yn y lleoliad hwn [65]. At hynny, mae'n hollbwysig sicrhau bod proses ymholi am ACEs fel mater o drefn, os cyflwynir hynny o fewn y systemau cyfiawnder, yn cael ei hategu gan wasanaethau wedi'u teilwra, ar sail tystiolaeth sydd wedi'u datblygu ar gyfer y rhai y nodwyd bod angen cymorth arnynt [4,60].

#### 4.4. Y cysylltiad rhwng ACEs mathau o droseddau

Canfuwyd bod cysylltiad rhwng ACEs a throseddau treisgar, gyda charcharorion a oedd wedi cael pedwar ACE neu fwy dair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cael yn euog o drais yn erbyn yr unigolyn o gymharu â'r rhai heb unrhyw ACE. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos cysylltiad rhwng ymddygiad troseddol treisgar a niwed yn ystod plentyndod gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol [66]. Yn wahanol i astudiaethau eraill [67], ni chanfu'r astudiaeth hon unrhyw gysylltiad rhwng ACEs a throseddau rhywiol. Er i ni recriwtio mewn rhannau o'r carchar lle roedd unigolion wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol, dim ond nifer fach o gyfranogwyr (n+69) wnaeth ddatgan y math hwn o drosedd. Oherwydd bod y math o droseddau wedi'u hunanadrodd gan y charcharorion (gweler Adran 4.6), mae'n bosibl bod cyfraddau'r troseddau rhywiol a ganfuwyd yn amcangyfrif rhy isel oherwydd bod cyfaddef i hyn mewn carchar yn gwneud iddynt deimlo'n agored i niwed a/neu'r stigma sy'n gysylltiedig â'r math hwn o drosedd.

#### 4.5. Ymwneud â thrais

Fe wnaeth y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon ddatgan cyfradd uchel o ymwneud â thrais. Dywedodd bron i un o bob pump (19.5%) eu bod wedi cyflawni trais ddwywaith neu fwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae straen niweidiol ar yr ymennydd o ganlyniad i drawma yn ystod plentyndod yn effeithio ar ddatblygiad cynnar yr ymennydd, gan effeithio ar reoli emosiynau ac ar sut mae unigolyn yn dehongli digwyddiadau [68,69]. Ochr yn ochr â hyn, mae ACEs wedi

cael eu cysylltu hefyd ag ymddygiad ymosodol a chyflawni trais [9,12]. Yn yr astudiaeth hon, canfuwyd cysylltiadau cryf rhwng nifer fawr o ACEs a chyflawni a dioddef trais. Roedd y risg o gyflawni trais dair gwaith yn uwch ymysg carcharorion â phedwar ACE neu fwy o gymharu â'r rhai heb unrhyw ACE. Er bod yr ods o gyflawni a dioddef trais ymhlith unigolion ag un ACE yn is na'r rhai heb unrhyw ACE, nid oedd y cysylltiadau hyn yn arwyddocaol a gallent ddangos lefelau uchel o drais yn y carchar (gweler isod). Mae tystiolaeth gref yn dangos bod cam-drin plant a thrawma yn un o benderfynyddion trais ac ymddygiad ymosodol [5], gan gynnwys o fewn poblogaethau troseddwyd [70]. Yn y sampl hwn, dywedodd saith o bob 10 (69.5%) o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cyflawni trais eu bod wedi dioddef trais hefyd. Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng dioddef trais a phob math o ACEs unigol ac eithrio aelod o'r aelwyd wedi'i garcharu.

Er bod yr astudiaeth hon yn mesur y trais a gyflawnwyd ac a ddiodefwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nid dod i gysylltiad â thrais yn y carchar (gweler Adran 4.6), i rai ymatebwyr bydd hyn yn cyd-fynd â chyfnod yn y carchar. O ystyried bod trais yn y ddalfa yn drosedd, mae'n bosibl bod y lefelau o ymwneud â thrais a hunanadroddwyd gan y carcharorion yn amcangyfrif rhy isel hefyd. Mae gwaith ymchwil arall wedi nodi bod y rhai sydd wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod yn fwy tebygol o ymddwyn yn dreisgar tra byddant yn y carchar [71]. Mae'n debygol y gellir ymestyn y cysylltiadau rhwng ACEs ac ymddygiad ymosodol i garchardai hefyd. Felly, gallai unigolion â phedwar ACE neu fwy, sy'n dangos tueddiadau treisgar, fod yn fwy tebygol hefyd o gyflawni trais mewn amgylchedd carchar. Yng Nghymru a Lloegr, mae lefelau trais mewn carchardai (h.y. ymosodiadau neu ymladd rhwng carcharorion a/neu staff) wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda 31,025 o ymosodiadau wedi'u cofnodi rhwng Ebrill 2017-Mawrth 2018, cynnydd o 16% yn nifer y digwyddiadau ers y flwyddyn flaenorol [72]. Mae llawer o ffactorau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn trais mewn carchardai, gan gynnwys ymddygiad heriol, nodweddion yn amgylchedd y carchar sy'n gwaethygu'r sefyllfa, a'r rhyngweithio rhwng staff a charcharorion [73]. Fodd bynnag, o gofio bod ACEs yn gysylltiedig â sgiliau ymdopi camaddasol a'u bod yn effeithio ar allu pobl i addasu i amgylcheddau newydd [19], mae'n debygol y bydd rhai pobl ag ACEs yn cael anhawster i addasu i amgylchedd carchardai,

a gallent gyflawni trais o ganlyniad. Mae'r canfyddiad hwn yn amlygu ymhellach y dewis o ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma mewn carchardai, yn arbennig wrth ymateb i ymddygiad treisgar. Gallai gwaith ymchwil yn y dyfodol archwilio'r berthynas rhwng ACEs a thrais, neu fathau eraill o ymddygiad aflonyddol mewn carchardai.

## 4.6. Cyfyngiadau

Dylid ystyried nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â'r astudiaethau wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn. Nid yw'r ymatebwyr yn sampl cynrychioliadol o garcharorion yn CEM Parc na phoblogaeth carcharorion Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, nod y broses recriwtio oedd cynnwys cymaint â phosibl o garcharorion cymwys. Mae yna nifer o nodweddion i'w hystyried hefyd o ran y gwahanol garchardai. Er enghraifft, mae CEM Parc yn garchar preifat gyda phoblogaeth fawr o droseddwyd rhyw, a gallai eu nodweddion hwy fod yn wahanol i rai'r boblogaeth gyffredinol mewn carchardai. Fodd bynnag, adeg casglu'r data, roedd CEM Parc yn cynrychioli'r boblogaeth carcharorion fwyaf yng Nghymru.

Roedd yr holl ddata a gasglwyd (gan gynnwys y data ACEs) yn ddata a hunanadroddwyd yn ôl-weithredol, ac felly, gallai fod wedi'i heffeithio gan gywirdeb yr adrodd, gwrthrychedd a'r gallu i ddwyn i gof. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau ACEs a nodwyd yn yr astudiaeth hon yn debyg i'r rhai a ganfuwyd ymhlith poblogaethau o droseddwyd mewn mannau eraill [4,31]. Yn ogystal, roedd yr ymatebwyr yn cymryd rhan yn wirfoddol yn yr arolwg, felly nid oedd modd nodi na hepgor unrhyw ragfarn yn sgil gwrthod cymryd rhan ond, yn anecdotaidd, gwrthododd rhai unigolion gymryd rhan am iddynt ddweud bod eu plentyndod wedi bod yn drawmatig (mae gwybodaeth bellach am y gyfradd gwblhau ar gael yn Atodiad 1). Wrth gofnodi cyrhaeddiad addysgol, ni wahaniaethwyd rhwng cymwysterau a enillwyd yn yr ysgol a'r rhai a enillwyd yn y carchar felly, er gwaethaf y lefel isel o gyrhaeddiad addysgol a nodwyd, mae'n debygol bod y ffigurau hyn yn goramcangyfrif y cymwysterau a enillwyd drwy addysg gymunedol draddodiadol. Nid oedd modd mesur amddifadedd preswyl ac yn hytrach bu'n rhaid i ni ddibynnu ar gyrhaeddiad addysgol. Wrth gofnodi ymwneud â thrais, cyfyngwyd hyn i'r flwyddyn ddiwethaf felly, nid oedd modd gwahaniaethu rhwng trais y tu mewn a'r tu allan i'r carchar.

Oherwydd y cyfyngiadau ar hyd yr holiadur, nid oedd modd casglu gwybodaeth am ddyddiad troseddau, nac oedran y troseddwr adeg yr euogfarn. Roedd gan hyn oblygiadau o ran sut y cyfrifwyd troseddu cyson iawn oherwydd nid oedd modd i ni nodi sawl trosedd yr oedd unigolyn wedi'i chyflawni fel troseddwr ifanc. Ni wnaethom gynnwys rhybuddion ac yn hytrach canolbwyntiwyd ar euogfarnau yn unig. Mae'n bosibl i rybudd effeithio ar allu unigolyn i gael gwaith. Fodd bynnag, roedd gan bob cyfranogwr o leiaf un euogfarn droseddol, ac roedd gan gyfran fawr o'r sampl sawl euogfarn ac felly cawsant eu categoreiddio fel troseddwr cyson iawn. Gan fod Sefydliadau Troseddwr Ifanc wedi'u sefydlu tua 30 mlynedd yn ôl, efallai fod nifer o gyfranogwr yn ein sampl na fyddent wedi gallu cael eu carcharu mewn sefydliad o'r fath, felly mae'n bosibl bod cyfraddau'r carchariadau mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc yn amcangyfrif rhy isel a gallai hyn guddio troseddu a throseddoldeb yn eu hieuentid. Fodd bynnag, nodwyd cyfradd uchel o garchariadau mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc yn yr astudiaeth. Ni wnaethom eithrio carcharorion ar remand rhag cymryd rhan yn yr arolwg. Yn ogystal, nid oedd ein sampl yn cynnwys menywod nac unigolion mewn carchardai Categori A (h.y. diogelwch eithaf). Fodd bynnag, mae rhai carcharorion Categori A yn CEM Parc na chawsant eu heithrio rhag cymryd rhan. Cafodd carcharorion ar ACCT eu heithrio rhag cymryd rhan hefyd. Yr unigolion hyn, yn ôl eu diffiniad, yw'r carcharorion sydd fwyaf agored i niwed gyda risg uchel o hunan-niweidio a hunanladdiad a allai fod wedi dod i gysylltiad â nifer o ACEs. Yn olaf, er y cysylltiadau cryf a ganfuwyd rhwng ACEs a chanlyniadau cyfiawnder troseddol, ni ellir canfod achosiaeth rhwng y canlyniadau.

## 4.7. Casgliad

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ceisio ymchwilio i gyfraddau ACEs ymhlith y boblogaeth o garcharorion gwrywaidd a'r cysylltiadau rhwng ACEs, hanes troseddu, y mathau o droseddau ac ymwneud â thrais. Mae'r canfyddiadau yn nodi lefelau llawer uwch o ACEs ymhlith carcharorion gwrywaidd o gymharu â gwrywod yn y boblogaeth gyffredinol. Mae'r berthynas gref a ganfuwyd rhwng ACEs a throseddu ieuentid, troseddu cyson iawn a throseddau treisgar yn dangos y gallai atal ACEs ddarparu cyfle sylweddol i leihau troseddau. Mae angen gwneud gwaith i nodi dulliau atal sylfaenol effeithiol a ffyrdd o ymateb i unigolion sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad ag ACEs ac

atal dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r cyfraddau uchel o ACEs ymhlith y boblogaeth hon a'r cysylltiadau cryf rhwng ACEs lluosog a mwy nag un cyfnod yn y carchar, yn dangos y posibilrwydd o weithredu strategaethau effeithol sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma er mwyn atal troseddu a throseddu parhaus. Mae gwaith yn cael ei wneud yng Nghymru i gyflwyno gwasanaeth cyfiawnder ieuentid sy'n seiliedig ar wybodaeth am darwma mewn lleoliadau cymunedol a diogel ond mae'r gwaith o werthuso effeithiolrwydd hyn yn parhau i fynd rhagddo. Yn ogystal â hynny, mae'r cysylltiadau rhwng ACEs lluosog ag ymwneud â thrais yn ychwanegu pwysau at yr angen i ddatblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma, a ddylai sicrhau bod y rhai ag ACEs yn cael cymorth i ymdopi â'u ACEs ac nad ydynt yn cael eu hail-drawmateiddio gan y carchar. Mae ACEs yn un o amrywiaeth o ffactorau risg sy'n cyfrannu at droseddu a gallai fod yn gysylltiedig â ffactorau risg eraill ar gyfer dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, gallai atal ACEs a chefnogi'r rhai sydd wedi'u heffeithio ganddynt fod yn gam hollbwysig ar gyfer lleihau lefelau troseddu, ac mae torri'r cylchoedd ACEs rhwng y cenedlaethau a throseddu yn rhan hollbwysig o sicrhau y gall unigolion fwynhau plentyndod diogel ac anogol a bywydau di-drosedd. Mae'n rhaid ymchwilio i ymyriadau i dorri'r cylchoedd rhwng y cenedlaethau a'u gwerthuso'n hydredol pan gânt eu rhoi ar waith. Er bod atal pob ACE yn uchelgais ar gyfer y tymor hir, mae ymyrraeth gynnar yn y carchar a gyda theuluoedd lle mae aelod o'r aelwyd yn y carchar yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan ACEs a helpu i rwystro ACEs a throseddu rhag trosglwyddo rhwng y cenedlaethau.

## Opsiynau ar gyfer mynd i'r afael ag ACEs a'u canlyniadau mewn carchardai ac ymhlith poblogaethau carchardai

- **Gallai'r system cyfiawnder troseddol ystyried darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma.** Gallai creu gwasanaeth cyfiawnder troseddol sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma (gweler Adrannau 4.2, 4.3 a 4.5) alluogi ei weithlu i ddeall profiadau bywyd yr unigolion y maent yn gweithio â hwy, natur gymhleth eu hanghenion a chefnogi unigolion sydd wedi'u heffeithio gan ACEs a thrawma. Byddai hyn hefyd yn galluogi staff i gefnogi unigolion ag ACEs a allai ei chael hi'n anodd addasu i amgylchedd



carchardai ac a allai fod mewn perygl uwch o ymwneud â thrais (gweler Adrannau 3.5 a 4.5). Gallai ymyrryd yn gynnar y tro cyntaf y bydd rhywun yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol eu hatal rhag cael eu charcharu yn y dyfodol, yn arbennig i'r rhai sydd wedi profi ACEs lluosog (gweler Adrannau 3.3 a 4.2). Dylai'r ddarpariaeth addysg mewn carchardai hefyd ystyried dull gweithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma oherwydd gallai hyn helpu i wella cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau cyflogaeth ymhellach i unigolion ar ôl cael eu rhyddhau a gallai weithredu fel ffactor amddiffynnol hefyd (gweler Adrannau 3.1 a 4.2). Er mwyn datblygu gwasanaeth sy'n seiliedig ar wybodaeth am drawma a'u gweithredu yn y lleoliad hwn, bydd angen gwerthusiad trylwyr. Gallai cyflwyno proses o ymholi am ACEs fel mater o drefn helpu i adnabod unigolion sy'n wynebu risg uwch o droseddu'n barhaus yn y dyfodol (gweler Adrannau 3.3 a 4.2), ond mae'n rhaid cymryd gofal i beidio â chaniatáu i'r wybodaeth hon greu stigma yn erbyn unigolion. Mae'r dystiolaeth ar gyfer proses ymholi fel mater o drefn yn gyfyngedig ar hyn o bryd, felly byddai angen ymchwilio i ganlyniadau hyn yn helaeth o safbwynt y gweithlu a'r carcharorion.

- **Gallai ymyriadau er mwyn atal troseddu parhaus gynorthwyo unigolion a'u teuluoedd.** Mae ACEs yn cyflwyno risg o ran troseddau ieuencid a throseddu parhaus ac maent yn cael eu trosglwyddo ar draws y cenedlaethau (gweler Adrannau 3.3 a 4.3). Gellir hefyd ymestyn y

cymorth a roddir i unigolion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol y mae eu bywydau wedi'u heffeithio gan ACEs i'w teuluoedd hefyd. Gallai gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd atal troseddu dilynol, trosglwyddo ACEs o riant i blentyn a chynyddu gwydnwch ar lefel y teulu (gweler Adran 4.2).

- **Dylid parhau i ganolbwyntio hefyd ar atal ACEs yng nghenedlaethau'r dyfodol.** Er y gellir ystyried ymyriadau i'r rhai sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, mae atal ACEs ymhlith cenedlaethau'r dyfodol yn hollbwysig ac yn ffactor allweddol ar gyfer atal troseddau (gweler Adrannau 3.1, 3.2 a 4.3.1). Dylid parhau i roi sylw i ymyriadau cynnar i'r rhai sydd mewn perygl o ddiodef niwed yn ystod plentyndod. Mae hyn yn cynnwys cryfhau rhaglenni'r blynyddoedd cynnar a darparu rhaglenni rhianta a theulu y mae'n hysbys eu bod yn effeithiol o ran lleihau cam-drin plant.
- **Mae nifer o feysydd y gallai gwaith ymchwil yn y dyfodol ganolbwyntio arnynt.** Mae'r rhain yn cynnwys: cyfraddau ACEs, cysylltiadau â chylchoedd troseddu a rhwng y cenedlaethau ymhlith poblogaethau eraill y DU, gan gynnwys troseddwy'r benywaidd, y rhai ar brawf a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol; y ffactorau amddiffynnol a allai gymedroli'r berthynas rhwng ACEs a throseddu; a'r berthynas rhwng ACEs a thrais, neu fathau eraill o ymddygiad aflonyddgar mewn carchar (gweler Adran 4).



1. Bellis MA, Ashton K, Hughes K, Ford K, Bishop J, Paranjothy S. Profiadau niweidiol mewn plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2015.
2. Hughes K, Ford K, Davies AR, Homolova L, Bellis MA. Ffynonellau gwydnwch a'u cysylltiadau lliniarol gyda'r niwed sy'n cael ei achosi gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2018.
3. Godet-Mardirossian H, Jehel L, Falissard B. Suicidality in male prisoners: Influence of childhood adversity mediated by dimensions of personality. *J Forensic Sci* 2011;56(4):942-9.
4. Naramore R, Bright MA, Epps N, Hardt NS. Youth arrested for trading sex have the highest rates of childhood adversity: A statewide study of juvenile offenders. *Sexual Abuse* 2017;29(4):396-410.
5. Ramirez SR, Jeglic EL, Calkins C. An examination of the relationship between childhood abuse, anger and violent behavior among a sample of sex offenders. *Health Justice* 2015;3(1):14.
6. Ashton K, Bellis MA, Davies AR, Hardcastle K, Hughes K. Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'u cysylltiad â chlefydau cronig a'r defnydd o'r gwasanaeth iechyd ymysg poblogaeth Cymru sy'n oedolion. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2016.
7. Felitti VJ, Anda RF, Nordenberg D, Williamson DF, Spitz AM, Edwards V, et al. Relationship of childhood abuse and household dysfunction to many of the leading causes of death in adults. *Am J Prev Med* 1998;14(4):245-58.
8. Grey HR, Ford K, Bellis MA, Lowey H, Wood S. Associations between childhood deaths and adverse childhood experiences: An audit of data from a child death overview panel. *Child Abuse Negl* 2019;90:22-31.
9. Bellis MA, Hughes K, Ford K, Edwards S, Sharples O, Hardcastle K, et al. Does adult alcohol consumption combine with adverse childhood experiences to increase involvement in violence in men and women? A cross-sectional study in England and Wales. *BMJ Open* 2018;8:e020591.
10. Ford K, Butler N, Hughes K, Quigg Z, Bellis MA. Adverse childhood experiences in Hertfordshire, Luton and Northamptonshire. Lerpwl: Canolfan Iechyd Cyhoeddu; 2016.
11. Hardcastle K, Bellis MA, Ford K, Hughes K, Garner J, Ramos Rodriguez G. Measuring the relationships between adverse childhood experiences and educational and employment success in England and Wales: Findings from a retrospective study. *Iechyd Cyhoeddus* 2018;165:106-16.
12. Hughes K, Bellis MA, Hardcastle KA, Sethi D, Butchart A, Mickton C, et al. The effect of multiple adverse childhood experiences on health: A systematic review and meta-analysis. *Lancet Public Health* 2017;2(8):e356-e366.
13. Lasford JE, Miller-Johnson S, Berlin LJ, Dodge KA, Bates JE, Pettit GS. Early physical abuse and later violent delinquency: A prospective longitudinal study. *Child Maltreatment* 2007;12(3):233-45.
14. Teague R, Mazerolle P, Legosz M, Sanderson J. Linking childhood exposure to physical abuse and adult offending: Examining mediating factors and gendered relationships. *Justice Quarterly* 2008;25(2):313-348.
15. Baglivio MT, Epps N. The prevalence of adverse childhood experiences (ACE) in the lives of juvenile offenders. *J Juvenile Justice* 2014;3(2):1-23.
16. Craig JM, Piquero AR, Farrington DP, Ttofi MM. A little early risk goes a long bad way: Adverse childhood experiences and life-course offending in the Cambridge study. *J Crim Justice* 2017;53:34-45.
17. Fox BH, Perez N, Cass E, Baglivio MT, Epps N. Trauma changes everything: Examining the relationship between adverse childhood experiences and serious, violent and chronic juvenile offenders. *Child Abuse Negl* 2015;46:163-73.
18. Wolff KT, Baglivio MT. Adverse childhood experiences, negative emotionality, and pathways to juvenile recidivism. *Crime Delinq* 2016;63(12):1495-1521.
19. Skarupski KA, Parisi JM, Thorpe R, Tanner E, Gross D. The association of adverse childhood experiences with mid-life depressive symptoms and quality of life among incarcerated males: Exploring multiple mediation. *Aging Ment Health* 2016;20(6):655-66.
20. Carnie J, Broderick R, Cameron J, Downie D, Williams G. Prisoner Survey 2017: 16th Series Research Strategy and Innovation. Gwasanaeth Carchardai'r Alban; 2017.
21. Baglivio MT, Jackowski K, Greenwald MA, Howell J. Serious, violent, and chronic juvenile offenders: A statewide analysis of prevalence and prediction of subsequent recidivism using risk and protective factors. *Criminology and Public Policy* 2014;13(1):83-116.
22. Baglivio MT, Epps N. The interrelatedness of adverse childhood experiences among high-risk juvenile offenders. *Youth Violence and Juv Justice* 2016;14(3):179-198.
23. Fox BH, Perez N, Cass E, Baglivio MT, Epps N. Trauma changes everything: Examining the relationship between adverse childhood experiences and serious, violent and chronic juvenile offenders. *Child Abuse Negl* 2015;46:163-73.
24. Lê-Scherban F, Wang X, Boyle-Steed KH, Pachter LM. Intergenerational associations of parent adverse childhood experiences and child health outcomes. *Pediatrics* 2018;141(6):e20174274.
25. Williams K, Papadopoulou V, Booth N. Prisoners' childhood and family backgrounds: Results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) longitudinal cohort study of prisoners. Llundain: Cyfres Ymchwil y Weinyddiaeth Gyfiawnder; 2012;4:12.



26. Murray J, Farrington DP. The effects of parental imprisonment on children. In: Tonry M, editors. *Crime and Justice*. Chicago: University of Chicago Press; 2008.133-206.
27. Llywodraeth Cymru. Ffyniant i bawb: Y strategaeth genedlaethol. 2017. Ar gael o: <https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu> [Fel ar 6 Hydref 2017].
28. Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rrhein sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023. Llywodraeth Cymru. 2017.
29. Gov.uk. Prolific Offenders - Defining a Prolific Offender. 2017 Ar gael o: <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/.../prolific-offenders-2017.pdf> [Fel ar 5 Ion 2019].
30. Craig JM, Baglivio MT, Wolff KT, Piquero AR, Epps N. Do social bonds buffer the impact of adverse childhood experiences on reoffending? *Youth Violence and Juv Justice* 2017;15(1):3–20.
31. Friestad C, Åse-Bente R, Kjelsberg E. Adverse childhood experiences among women prisoners: Relationships to suicide attempts and drug abuse. *Int J Soc Psychiatry* 2014;60(1):40-6.
32. Reavis JA, Looman J, Franco KA, Rojas B. Adverse childhood experiences and adult criminality: How long must we live before we possess our own lives? *Permanente J* 2013;17(2):44-8.
33. Bellis MA, Hardcastle K, Ford K, Hughes K, Ashton K, Quigg Z, et al. Does continuous trusted adult support in childhood impart life-course resilience against adverse childhood experiences – a retrospective study on adult health-harming behaviours and mental well-being. *BMC Psychiatry* 2017;17(1):110.
34. Krischer MK, Sevecke K. Early traumatization and psychopathy in female and male juvenile offenders. *Int J Law Psychiat* 2008;31(3):253–62.
35. Creese B. An assessment of the English and maths skills levels of prisoners in England. *London Review of Education*; 2016.
36. Stempel H, Cox-Martin M, Bronsert M, Dickinson LM, Allison MA. Chronic school absenteeism and the role of adverse childhood experiences. *Acad Pediatrics* 2017;17(8):837-843.
37. Topitzes J, Pate DJ, Berman ND, Medina-Kirchner C. Adverse childhood experiences, health, and employment: A study of men seeking job services. *Child Abuse Negl* 2016;61:23–34.
38. Ministry of Justice. *Education and employment strategy*. Llundain: Llyfrfa EM; 2018.
39. Ellison M, Szifris K, Horan R, Fox CA. Rapid evidence assessment of the effectiveness of prison education in reducing recidivism and increasing employment. *Probation Journal* 2017;64(2):108–128.
40. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Addysg. *Exploring the outcomes of prisoner learners: Analysis of linked offender records from the Police National Computer and Individualised Learner Records*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; 2017.
41. Plumb JL, Bush KA, Kersevich SE. Trauma-sensitive schools: An evidence-based approach. *Sch Soc Work J* 2016;40(2):37–60.
42. Smith T, Noble M, Noble S, Wright G, McLennan D, Plunkett E. *The English indices of deprivation 2015*. Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol; 2015.
43. Bellis MA, Hughes K, Wood S, Wye S, Perkins C. National five-year examination of inequalities and trends in emergency hospital admission for violence across England. *Inj Prev* 2011;17(5):319–25.
44. Piotrowska PJ, Stride CB, Croft SE, Rowe R. Socioeconomic status and antisocial behaviour among children and adolescents: A systematic review and meta-analysis. *Clin Psych Review* 2015;35:47-55.
45. Sefydliad Joseph Rowntree. *Understanding and preventing youth crime*. Ymchwil Polisi Cymdeithasol. 1996;93.
46. Bellis MA, Lowey H, Leckenby N, Hughes K, Harrison D. Adverse childhood experiences: Retrospective study to determine their impact on adult health behaviours and health outcomes in a UK population. *J Public Health* 2014;36(1): 81–91.
47. Lin N. Inequality in social capital. *Contemporary Sociology* 2000;29(6):785-95.
48. Baglivio MT, Wolff KT, Epps N, Nelson R. Predicting adverse childhood experiences: The importance of neighborhood context in youth trauma among delinquent youth. *Crime & Delinq* 2015:1-23.
49. Carr MB, Vandiver TA. Risk and protective factors among youth offenders. *Adolescence* 2001;36(143):409-26.
50. Shader M. *Risk factors for delinquency: An overview*. Washington DC: Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau; 2004.
51. Ellis WR, Dietz WH. A new framework for addressing adverse childhood and community experiences: The building community resilience model. *Academic Pediatrics* 2017;17(1):S86–S93.
52. Ungar M. Community resilience for youth and families: Facilitative physical and social capital in contexts of adversity. *Children and Youth Services Review* 2011;33(9):1742-8.
53. Krammer S, Eisenbarth H, Hügli D, Liebreinz M, Kuwert P. The relationship between childhood traumatic events, social support, and mental health problems in prisoners. *J Forens Psychiatry Psychol* 2018;29(1):72–85.
54. Besemer S, Ahmad SI, Hinshaw SP, Farrington DP. A systematic review and meta-analysis of the intergenerational transmission of criminal behavior. *Aggress Violent Behav* 2017;37:161–78.

55. Bridgett DJ, Burt NM, Edwards ES, Deater-Deckard K. Intergenerational transmission of self-regulation: A multidisciplinary review and integrative conceptual framework. *Psychol Bull* 2015;141(3):602-654.
56. Woods-Jaeger BA, Cho B, Sexton CC, Slagel L, Goggin K. Promoting resilience: Breaking the intergenerational cycle of adverse childhood experiences. *Health Education & Behavior* 2018;45(5):772-80.
57. Clancy A, Maguire M. Prisoners and their children: An innovative model of 'whole family' support. *Eur J Probat* 2017;9(3):210-30.
58. Kempf-Leonard K, Tracy PE, Howell JC. Serious, violent, and chronic juvenile offenders: The relationship of delinquency career types to adult criminality. *Justice Q* 2001;18(3):449-78.
59. Rhoades KA, Leve LD, Eddy JM, Chamberlain P. Predicting the transition from juvenile delinquency to adult criminality: Gender-specific influences in two high-risk samples. *Crim Behav Ment Health* 2016;26(5):336-51.
60. Hoeve M, Colins OF, Mulder EA, Loeber RJ, Stams GJ, Vermeiren RR. Trauma and mental health problems in adolescent males: Differences between childhood-onset and adolescent-onset offenders. *Crim Justice Behav* 2015;42(7):685-702.
61. Newbury A, Ford K, Roderick J. Understanding the awareness of adverse childhood experiences (ACEs) in the criminal justice workforce. *Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru*; 2018
62. Ford K, Evans J, Newbury A, Meredith Z, Roderick J. Understanding the response to vulnerability by South Wales Police Force and other agencies. *Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru*; 2017.
63. Llywodraeth EM. *Serious Violence Strategy*; 2018.
64. Ford K, Newbury A, Meredith Z, Evans J, Roderick J. An evaluation of the Adverse Childhood Experience (ACE) Informed Approach to Policing Vulnerability Training (AIAPVT) pilot. *Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru*; 2017.
65. Ford K, Hughes K, Hardcastle K, Di Lemma LCG, Davies AR, Edwards S, et al. The evidence base for routine enquiry into adverse childhood experiences: A scoping review. *Child Abuse Negl* 2019;91:131-46.
66. Brewer-Smyth K, Cornelius ME, Pickelsimer EE. Childhood adversity, mental health, and violent crime. *J Forensic Nurs* 2015;11(1):4-14.
67. Levenson JS, Willis GM, Prescott DS. Adverse childhood experiences in the lives of female sex offenders. *Sexual Abuse* 2015;27(3):258-83.
68. Pechtel P, Pizzagalli DA. Effects of early life stress on cognitive and affective function: an integrated review of human literature. *Psychopharmacology* 2011;214(1):55-70.
69. Teicher MH, Samson JA, Anderson CM, Ohashi K. The effects of childhood maltreatment on brain structure, function and connectivity. *Nat Rev Neurosci* 2016;17(10):652-66.
70. Sarchiapone M, Carli V, Cuomo C, Marchetti M, Roy A. Association between childhood trauma and aggression in male prisoners. *Psychiatry Res* 2009;165(1-2):187-92.
71. Martin MS, Eljdupovic G, McKenzie K, Colman I. Risk of violence by inmates with childhood trauma and mental health needs. *Law Hum Behav* 2015;39(6):614-23.
72. Ministry of Justice. *Safety in custody statistics, England and Wales: Deaths in prison custody to June 2018 assaults and self-harm to March 2018*; 2018.
73. McGuire. *Understanding prison violence: A rapid evidence assessment*. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM; 2018.
74. Meinck F, Steinert JI, Sethi D, Gilbert R, Bellis MA, Mickton C, et al. *Measuring and monitoring national prevalence of child maltreatment: A practical handbook*. Copenhagen: Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd; 2016.

# Atodiad 1: Methodoleg ymchwil lawn

Casglwyd data rhwng Chwefror a Mehefin 2018 gan ymchwilyr o Uned Gydweithredu Iechyd Cyhoeddus (Prifysgol Bangor) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd pob un o'r cyfweilyr hyfforddiant ar gyfweild yn seiliedig ar astudiaethau ACE blaenorol yng Nghymru, a chawsant eu fetio gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS) a G4S, gan gwblhau hyfforddiant diogelwch yn y carchar perthnasol G4S. Cymeradwywyd y gwaith ymchwil gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phwyllgor Ymchwil Cenedlaethol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS; NOMS yn flaenorol). Derbyniwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Gofal Iechyd a Gwyddorau Meddygol Prifysgol Bangor a Phwyllgor Moeseg Ymchwil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG; Cyfeirnod 17/WA/0249).

## Dewis a recriwtio ar gyfer y sampl

Er mwyn rhoi blaenoriaeth i gynnwys troseddwy o Gymru sy'n byw mewn amodau caeedig, dewiswyd CEM Parc, carchar Categori B yn Ne Cymru fel safle'r ymchwil. Mae'r carchar yn cael ei redeg gan G4S ac mae'n gartref i droseddwyr gwrywaidd sy'n oedolion, troseddwyr rhyw sydd wedi'u heuogfarnu ac sydd ar remand a throseddwyr ifanc. Defnyddiwyd dull sampl cyfleus i recriwtio gwrywod 18-69 oed i'r astudiaeth. Caniatwyd i bob cyfranogwr gymryd rhan waeth beth oedd eu categori diogelwch (A, B, C neu D), lleoliad preswyl (e.e. unedau pobl sy'n agored i niwed) neu statws yn y carchar (e.e. sylfaenol neu uwch). Pennwyd maint targed o 451 ar gyfer y sampl, gan adlewyrchu traean o gapasiti poblogaeth y carchar, a sicrhwyd maint sampl o 470. Cafodd achosion eu hepgor os na fu'n bosibl aseinio nifer yr ACEs iddynt oherwydd data coll (n=2), felly maint y sampl terfynol i'w ddadansoddi oedd 468.

Cafodd y broses recriwtio ei thargedu'n gyfartal ar draws holl breswylfeydd y carchar ac eithrio bloc y Sefydliad Troseddwy Ifanc (roedd pob carcharor yn anghymwys oherwydd eu bod o dan 18 oed). Rhoddwyd hysbyseb ar gyfer yr astudiaeth ar fannau gwybodaeth electronig y carcharorion o fewn y carchar cyn y cynnal y gwaith maes, a chafodd taflenni a oedd yn hysbysebu'r astudiaeth eu dosbarthu ym mhob uned. Yn ogystal,

treuliodd ymchwilyr amser ar yr unedau yn ystod amser cyswllt (h.y. amser rhydd) yn siarad gyda charcharorion, gan eu hysbysu am yr astudiaeth a gofyn iddynt a fyddai ganddynt ddi-ddordeb cymryd rhan. Roedd holl ddeunyddiau'r astudiaeth yn datgan yn glir beth oedd diben yr astudiaeth: ymchwilio i brofiadau plentyndod y cyfranogwyr, strwythur eu teulu, profiadau eu plant, iechyd, camddefnyddio sylweddau, llesiant a'u profiad yn y carchar. Casglwyd y data mewn ffordd a oedd yn amharu cyn lleied â phosibl ar y carchar, yn cynnig y diogelwch mwyaf i'r tîm ymchwil gan sicrhau y byddai gofal priodol parhaus ar gael i'r cyfranogwyr ar ôl cwblhau'r cyfweiliad. Yn dilyn cytundeb gyda'r carchar bu'r ymchwilyr yn casglu data ar ddyddiau Llun ac Iau penodol yn ystod cyfnod yr astudiaeth ac roeddent ar gael rhwng 8:00am - 6:30pm er mwyn i unigolion a oedd yn gweithio neu mewn addysg allu cymryd rhan yn yr ymchwil os oeddent yn dymuno, gan amhau cyn lleied â phosibl arnynt.

Y meini prawf ar gyfer cynnwys carcharorion yn yr astudiaeth oedd:

- 18-69 oed
- Yn meddu ar y gallu gwybyddol i gymryd rhan
- Heb fod yn cael eu rheoli o dan y gweithdrefnau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT).

Er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus ar gyfer cyfranogi, cyflwynwyd dalen wybodaeth i ddarpar gyfranogwyr wrth gysylltu â hwy, a oedd yn amlinellu diben yr astudiaeth, ar gyfer beth y byddai'r canlyniadau'n cael eu defnyddio, cyfrinachedd yr ymchwil a'r ffaith ei bod yn ddi-enw. Gan gydnabod y lefelau uchel o anllythrennedd ymhlith poblogaeth y carchar, cafodd yr holl ddeunyddiau eu darparu mewn fformat hawdd ei ddeall. Treuliodd yr ymchwilyr amser yn mynd drwy'r ddalen wybodaeth gyda'r holl ddarpar gyfranogwyr er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r hyn yr oedd cymryd rhan yn ei olygu. Pwysleisiwyd wrth bob darpar gyfranogwr bod cyfranogi yn wirfoddol ac y gallent dynnu'n ôl unrhyw bryd yn ystod y cyfweiliad. Casglwyd enwau a rhifau adnabod y carcharorion yn ystod y cam recriwtio er mwyn i'r ymchwilyr allu canfod gwirfoddolwyr ar gyfer yr astudiaeth yn y carchar ac asesu eu cymhwysedd (h.y. oedran a statws ACCT) ond ni chadwyd y rhain gyda'r data, ac ni chawsant eu defnyddio i wirio hanes troseddu. Cafwyd cydsyniad ysgrifenedig i gymryd rhan yn yr astudiaeth gan bob cyfranogwr.

Roedd holl ddeunyddiau'r astudiaeth, gan gynnwys hysbysebion recriwtio a holiadur yr astudiaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## Y gyfradd gyfranogi

Pan gysylltodd y tîm ymchwil â hwy i gymryd rhan, cytunodd 529 o unigolion i gymryd rhan mewn cyfweiliad (gan gynnwys 100 a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan drwy ymateb i hysbysebion yr ymchwil) a gwrthododd 167 gymryd rhan. O'r rhai a wirfoddolodd, nid oedd 12 yn gymwys ( $n=6$ , ddim yn cyflawni'r meini prawf cymhwyster;  $n=6$ , ystyriwyd eu bod yn rhy fregus i gyfranogi), gadawodd 26 y carchar yn ystod cyfnod yr astudiaeth cyn iddynt allu cwblhau holiadur a phenderfynodd 21 dynnu'n ôl yn ddiweddarach. O'r rhai y cysylltwyd â hwy i gymryd rhan ( $n=696$ ), y gyfradd gwblhau oedd 71.4%.

Newidiodd cyfanswm poblogaeth y carchar yn ystod cyfnod yr astudiaeth ond ar ddiwrnod olaf y cyfnod casglu data, roedd 1,566 wedi'u carcharu yn CEM Parc, roedd 1,448 o'r rheini yn yr ystod oedran a oedd yn gymwys i gymryd rhan ac nid oeddent ar ACCT. Felly, o gyfanswm poblogaeth y carchar ar ddiwedd yr astudiaeth, cysylltodd y tîm ymchwil â 48.1% o boblogaeth gymwys y carchar.

## Holiadur

### Cwestiynau am ACEs

Defnyddiodd yr astudiaeth fersiwn ddiwygiedig o'r holiadur o astudiaethau blaenorol o ACEs yng Nghymru [1,2]. Roedd hwn yn cynnwys 13 o gwestiynau a oedd yn cynnwys dod i gysylltiad ag 11 o wahanol fathau o ACEs yn ystod plentyndod (h.y. o dan 18 oed; Tabl Ai). Defnyddiwyd cwestiynau o offeryn ACE sefydledig Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau yr Unol Daleithiau, a Holiadur Byr ar Gam-drin Plant Sefydliad Iechyd y Byd [74].

Casglwyd data hefyd ar ddemograffeg y cyfranogwyr (h.y. oedran, cenedligrwydd, ethnigrwydd, addysg, cyflogaeth a statws priodasol), strwythur y teulu (e.e. nifer y plant biolegol ac oedran, rhyw, preswyliaeth, profiadau yn ystod plentyndod, ymweliadau carchar pob plentyn), iechyd y cyfranogwyr (gan gynnwys: statws iechyd a hunanadroddwyd, iechyd meddwl a llesiant), cefndir troseddu a phrofiad o garchar (gan gynnwys: troseddau ieuencid, cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn y carchar, y math a'r nifer o euogfarnau troseddol [gweler Tabl Aii], a chysylltiad gyda'r teulu yn y carchar).

Cwblhawyd y cyfweiliad gan yr ymchwilydd gan ddefnyddio pin ysgrifennu a phapur, gyda'r cyfranogwr yn cwblhau'r rhannau mwy sensitif o'r holiadur. Mewn rhai achosion, ar gais y cyfranogwr, cwblhaodd yr ymchwilydd yr holiadur cyfan ar ran y cyfranogwyr. Esboniwyd yn glir i bob cyfranogwr y gallent wrthod ateb unrhyw rai o'r cwestiynau.

Ar ôl cwblhau'r holiadur, rhoddwyd taflen ddiolch i'r unigolion, a oedd yn cynnwys manylion am wasanaethau cymorth a oedd ar gael yn y carchar a rhifau ffôn llinellau cymorth perthnasol, er enghraifft y Samariaid. Rydym yn amcangyfrif bod y cyfweiliadau wedi cymryd 25 munud i'w cwblhau, ar gyfartaledd, gan gynnwys yr amser i sicrhau cydsyniad. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio yn ôl sgiliau llythrennedd y cyfranogwyr a'r nifer o blant yr oeddent wedi'u cael, a oedd yn golygu bod yr holiadur yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau mewn rhai achosion.

## Nodweddion y sampl

Mae tabl Aiii yn dangos demograffeg y cyfranogwyr yn y sampl o gymharu â phoblogaethau CEM Parc a phoblogaeth carcharorion gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr.



**Tabl Ai: ACEs yr holwyd yn eu cylch yn yr astudiaeth**

| <b>ACE</b>             | <b>Cwestiwn</b><br>Cyn gofyn pob un o'r cwestiynau, rhoddwyd y datganiad: "Tra yr oeddech yn tyfu i fyny, cyn 18 oed..."   | <b>Ymateb a oedd yn dynodi ACE</b>                        |
|------------------------|--|---|
| Rhieni'n gwahanu       | A wnaeth eich rhieni erioed wahanu neu ysgaru?   | Do  |
| Trais domestig         | Pa mor aml oedd eich rhieni neu oedolion yn eich cartref yn slapio, taro, cicio, pwnio neu guro ei gilydd?   | Unwaith neu fwy nag unwaith                               |
| Cam-drin corfforol     | Pa mor aml y gwnaeth rhiant neu oedolyn yn eich cartref eich taro, curo, cicio neu eich brifo chi'n gorfforol mewn unrhyw ffordd? Nid yw hyn yn cynnwys smacio ysgafn am gosb  | Unwaith neu fwy nac unwaith                               |
| Cam-drin llafar        | Pa mor aml y gwnaeth rhiant neu oedolyn yn eich cartref regi arnoch chi, eich neu eich bychanu chi?  | Mwy nag unwaith   |
| Cam-drin rhywiol       | Pa mor aml wnaeth unrhyw un oedd o leiaf 5 mlynedd yn hŷn na chi (gan gynnwys oedolion) gyffwrdd â chi yn rhywiol?<br><br>Pa mor aml wnaeth unrhyw un oedd o leiaf 5 mlynedd yn hŷn na chi (gan gynnwys oedolion) geisio eich gorfodi i gyffwrdd â hwy yn rhywiol?<br><br>Pa mor aml wnaeth unrhyw un o leiaf 5 mlynedd yn hŷn na chi (gan gynnwys oedolion) eich gorfodi chi i gael unrhyw fath o gyfathrach rywiol (geneuol, rhesrol neu faginol)? | Unwaith neu fwy nag unwaith i unrhyw un o'r tri chwestiwn |
| Esgeulustod corfforol  | A wnaeth eich rhiant/rhodwr gofal, am gyfnodau hir wneud i chi fynd heb ddigon o fwyd neu ddiod, dillad glân neu le glân a chynnes i fyw?  | Unwaith neu fwy nag unwaith                               |
| Esgeulustod emosïynol  | A oedd yna adegau pan nad oedd oedolyn yn byw gyda chi a oedd yn gwneud i chi deimlo bod rhywun yn eich caru?  | Mwy nag unwaith   |
| Salwch meddwl          | A oeddech chi'n byw gydag unrhyw un oedd yn isel, yn sâl yn feddyliol neu'n hunaladdol?  | Oeddwn  |
| Camdefnyddio alcohol   | A oeddech chi'n byw gydag unrhyw un oedd yn yfed yn broblematig neu'n alcoholig?   | Oeddwn  |
| Camdefnyddio cyffuriau | A oeddech chi'n byw gydag unrhyw un oedd yn defnyddio cyffuriau stryd anghyfreithlon neu'n camdefnyddio meddyginiaethau presgripsiwn?  | Oeddwn  |
| Carcharu               | A oeddech chi'n byw gydag unrhyw un a dreuliodd amser neu a ddedfrydwyd i dreulio amser mewn carchar neu sefydliad troseddwr ifanc?  | Oeddwn  |

## Dadansoddi data

Cynhaliwyd y prosesau cofnodi a dadansoddi data gan ddefnyddio fersiwn 24 Ystadegau SPSS IBM. Roedd y dadansoddiadau'n cynnwys dull chi wedi'i sgwario er mwyn y berthynas rhwng ACEs, demograffeg, mathau o droseddau a throseddu cyson, ac atchweliad logistaidd er mwyn nodi cysylltiadau rhwng ACEs a mathau o gyffuriau ar ôl addasu ar gyfer oedran, ethnigrwydd a lefel cyrhaeddiad addysgol (a ddefnyddiwyd fel mesur amddifadedd). Dylid nodi nad yw'r canfyddiadau a'r cysylltiadau yn awgrymu achosiaeth.

## Cyfrifo nifer yr ACEs

Ar gyfer pob math gwahanol o ACE yr oedd unigolion yn datgan eu bod wedi'i gael, cyfrifwyd sgôr ACE (o 0 i 11), yna defnyddiwyd hyn i gyfrifo nifer ACEs unigolyn. Nid yw nifer yr ACEs yn ystyried digwyddiadau rheolaidd, eu hamseriad neu eu hyd. Yn unol ag arolygon eraill a gwblhawyd yng Nghymru ac yn rhyngwladol, rhannwyd nifer yr ACEs yn bedair carfan:

- Dim ACE (n =74)
- Un ACE (n =83)
- Dau i Dri ACEs (n =98)
- Pedwar ACE neu fwy (n =213).

**Tabl Aii: Y mathau o droseddau yr holwyd amdanynt yn yr astudiaeth**

| Y math o categorïau troseddau a oedd wedi'u cynnwys yn yr holiadur | Enghreifftiau o droseddau a oedd wedi'u cynnwys yn y categori                                       | Categorïau ar gyfer dadansoddiad |
|--|---|----------------------------------|
| Lladdiad   | Llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol, babanladdiad                                   | Trais yn erbyn yr unigolyn (VAP) |
| Trais gydag anaf   | Ceisio llofruddio, Gwir Niwed Corfforol (ABH), Niwed Corfforol Difrifol (GBH)                       |                                  |
| Trais heb anaf   | Threats to kill, harassment, cruelty to and neglect of children, assault without injury             |                                  |
| Arfau yn eu meddiant   | Arfau yn eu meddiant e.e., cyllyll, drylliau  |                                  |
| Troseddau rhywiol  | Trais rhywiol, ymosodiad anwedus, meithrin perthynas rywiol amhriodol                               | Troseddau rhywiol                |
| Troseddau gyrru  | Gyrru heb drwydded, wedi'ch gwahardd neu heb yswiriant  | Troseddau gyrru                  |
| Dwyn   | Lladrad, bwrghleriaeth, ceisio byrgleriaeth, dwyn o siopau, dwyn o gerbyd, blacmêl, gadael heb dalu | Dwyn                             |
| Difrod troseddol   | Difrod i'r cartref, eiddo arall neu gerbydau gan gynnwys graffiti                                   | Difrod troseddol                 |
| Troseddau cyffuriau  | Meddu ar, defnyddio, cyflenwi neu fwriad i gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon                        | Troseddau cyffuriau              |
| Trefn gyhoeddus  | Anrhefn, trais, terfysg   | Trefn gyhoeddus                  |
| Lloggi bwriadol  | Y weithred o losgi eiddo yn fwriadol, gan gynnwys adeiladau a cherbydau                             | Arall                            |
| Troseddau yn erbyn cymdeithas                                      | Troseddau mewnfudo, gwyrddroi cwrs cyfiawnder   |                                  |
| Troseddau twyll  | Twyll bwriadol, yn y rhan fwyaf o achosion er mwyn elwa'n ariannol                                  |                                  |
| Arall  | Mathau eraill o droseddau na ellir eu cynnwys yn y mathau uchod                                     |                                  |

**Tabl Aiii: Demograffeg sampl Astudiaeth ACEs Carcharorion a'r gymhariaeth rhwng Carcharorion CEM Parc a Charcharorion Gwrywaidd yng Nghymru a Lloegr**

|                           |       | Arolwg ACEs Carcharorion (N=468) |      | Carchar CEM Parc (N=1,502*) |                   | Poblogaeth Carchardai Cymru a Lloegr (N=76,668**) |                    |
|---------------------------|-------|----------------------------------|------|-----------------------------|-------------------|---|--------------------|
|                           |       | n                                | %    | n                           | %                 | n   | %                  |
| Grŵp oedran (blynyddoedd) | 18-20 | 43                               | 9.2  | 128                         | 8.5               | 4,109   | 5.4                |
|                           | 21-29 | 168                              | 35.9 | 484                         | 32.2              | 23,454  | 30.6               |
|                           | 30-39 | 131                              | 28.0 | 442                         | 29.4              | 23,868  | 31.1               |
|                           | 40-69 | 126                              | 26.9 | 448                         | 29.8              | 25,237  | 32.9               |
